# aLLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

# CYFRIFON BLYNYDDOL 2014/2015

## ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae‟r Adroddiad Blynyddol hwn yn cynnwys y Sylwadau Rheoli, yr Adroddiad Taliadau a'r Datganiad Llywodraethiant.

### Cefndir Statudol

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru drwy Siarter Gorffori Frenhinol a roddwyd i'r Llyfrgell ar 19 Mawrth 1907 (a Siarter Atodol gyda rhagor o ddarpariaethau ar gyfer cyfansoddiad a llywodraethiant y Llyfrgell ar 5 Medi 1911). Rhoddwyd Siarteri Atodol eraill ar 27 Ebrill 1978 ac 19 Gorffennaf 2006. Yn ystod 2014/2015, roedd yn cael ei hariannu'n bennaf gan grantiau oddi wrth y Llywodraeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â‟r Cyfarwyddyd a luniwyd gan weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Gellir cael copi o‟r Cyfarwyddyd oddi wrth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Y Llyfrgell yw un o chwe llyfrgell adneuon cyfreithiol y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Mae wedi'i chymeradwyo fel ystorfa ar gyfer cofnodion manoraidd gan Feistr y Rholiau yn 1926, ar gyfer Archifau'r Eglwys yng Nghymru, a adneuwyd yn 1934, a Chofnodion yr Eglwys yng Nghymru, a adneuwyd yn 1944. Dan gyfarwyddyd yr Adran Brofiant, trosglwyddwyd y Cofnodion Profiant Eglwysig i'r Llyfrgell yn 1945. Yn 1960, fe'i penodwyd yn ystorfa ar gyfer rhai cofnodion o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. Mae Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, fel y‟i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn enwi Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel corff a all ond ennill swyddogaethau a hynny dim ond gyda chydsyniad

### Prif Amcan

Prif amcan y Llyfrgell yw: casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru, y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy‟n ymroi i ymchwil a dysg. (Siarter Frenhinol 2006, paragraff 4.)

### Elusen

Mae‟r Llyfrgell yn elusen gofrestredig, rhif elusen 525775, Rhif TAW 905190437, dan enw Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Y cyfeiriad ydy Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU.

### Treth Gorfforaeth

Mae'r Llyfrgell wedi'i heithrio rhag talu Treth Gorfforaeth o dan adran 505 o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1998.

### Swyddogaethau Craidd

Nodweddir gweithgareddau'r Llyfrgell gan raglenni gwaith parhaus yn hytrach na chan brosiectau tymor byr. Mae'r swyddogaethau craidd canlynol yn cynrychioli‟r gwaith sylfaenol y mae‟n rhaid i'r Llyfrgell ymgymryd ag ef os yw am gydymffurfio â‟i Siarter.

Y rhain felly yw busnes hanfodol a pharhaus y Llyfrgell. Ni ragwelir y bydd y swyddogaethau craidd hyn yn newid:

1. darparu gwasanaeth effeithiol ac amserol i ddefnyddwyr agos a phell trwy wasanaethau cyflenwi ac ymholiadau a thrwy ddarparu catalogau awtomataidd ac â llaw a llawrestrau,

2. casglu defnyddiau drwy adneuon cyfreithiol, pryniannau, rhoddion, cymynroddion, cyfnewid, ac adneuo, yn unol â pholisïau datblygu casgliadau penodedig a luniwyd yn unol â thelerau‟r Siarter, a

3. phrosesu a storio‟r defnyddiau a geir,

4. cadw a diogelu‟r defnyddiau yn y casgliadau,

5. dehongli a rhoi cyhoeddusrwydd i‟r casgliadau drwy arweinlyfrau, cyhoeddiadau, llyfryddiaethau cyhoeddedig ac ar-lein, arddangosfeydd, darlithoedd ac unrhyw ddulliau priodol eraill, a chynhyrchu a chynnal y bywgraffiaduron cenedlaethol,

6. cydweithredu a darparu mewnbwn arbenigol a phroffesiynol ar lefel Cymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Cefnogir y swyddogaethau craidd hyn gan strwythurau rheoli priodol, rheolaethau ariannol effeithiol a rhaglenni hyfforddi a datblygu staff.

**Canlyniadau a Dyraniadau Arian**

Paratoir y cyfrifon dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar ffurf a bennir gan weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Roedd yr adnoddau net a dderbyniwyd gan y Llyfrgell am y flwyddyn ariannol yn £3.276m (2013/14: £3.074m). Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniodd y Llyfrgell oedd £18.797m (2013/14 £16.704m) a chyfanswm yr adnoddau a wariwyd oedd £15.521m (2013/14 £13.630m). Roedd balansau‟r cronfeydd ar 31 Mawrth 2015 yn £89.124m (31 Mawrth 2014 £84.928m).

Dyma‟r adroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru am berfformiad y Llyfrgell yn 2014/15 o‟i gymharu â‟i thargedau:

| | | Targed | Gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| 1 | Nifer y defnyddwyr rhwydwaith o bell yn ystod y flwyddyn | 800,000 | 1,091,797 |
| 2 | Nifer yr ymwelwyr | 87,000 | 79,545 |
| 3 | Nifer y cyfranogwyr yng ngweithgareddau'r Llyfrgell | 12,000 | 17,531 |
| 4 | Boddhad ymwelwyr â'r awyrgylch cyffredinol | 95% | 95% |
| 5 | Y defnydd o'r ystafelloedd darllen | 25,000 | 24,049 |

Disgrifir y rhain ynghyd â sylwadau ategol yn Adroddiad Blynyddol y Llyfrgell.

**Adolygu Gweithgareddau**
Mae prif weithgareddau'r sefydliad yn ymwneud â'i amcanion, sy'n cael eu diffinio uchod.
Adroddir ar ddatblygiad gweithgareddau yn yr Adroddiad Blynyddol y mae'r Cyfrifon Blynyddol hyn yn rhan ohono.

**Adolygiad Ariannol**
Mae amcanion strategol y Llyfrgell wedi‟u nodi yn ei Chynllun Corfforaethol dan y teitl "Gwybodaeth i Bawb". Mae'r Cynllun yn defnyddio'r Amcanion a nodir yn y Siarteri Brenhinol ac mae hefyd yn disgrifio sut y bydd y Llyfrgell yn parhau i ddatblygu mewn amgylchedd digidol sy'n newid yn gyflym.
Prif ffynhonnell cyllid y Llyfrgell yw cymorth grant gan Lywodraeth Cymru a rhaid i reolaeth ariannol y Llyfrgell gydymffurfio â‟r telerau a nodir yn y "Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol" (MSFM). Caiff cymorth grant ar gyfer costau rhedeg ei gredydu i‟r Cronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad a grantiau prynu casgliadau a chyfalaf i‟r Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig. Mae'r Llyfrgell yn cynhyrchu incwm sylweddol drwy ei gweithgareddau masnachu, gan gynnwys ei siop, ei bwyty a'i gwasanaethau llungopïo. Defnyddir cronfeydd preifat y Llyfrgell o bryd i'w gilydd i ategu‟r cymorth grant a gall ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer pryniannau i‟r casgliadau a chostau rhedeg. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Llyfrgell wedi chwilio am gyfraniadau oddi wrth ymddiriedolaethau, cronfeydd, rhoddion a chymynroddion gan unigolion.

Dyma brif weithgareddau'r Llyfrgell y dangosir y costau ar eu cyfer yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol:

- Incwm gwirfoddol
- Masnachu i godi arian
- Casglu a diogelu
- Marchnata, arddangosfeydd ac addysg
- Cadwraeth, a
- Llywodraethiant

Dyrennir costau gan ddefnyddio system ddosrannu sy'n dyrannu costau uniongyrchol ac anuniongyrchol i bob un o'r meysydd uchod. O‟r holl adnoddau a wariwyd, sef £15.521m, y meysydd mwyaf sylweddol yw Marchnata, Arddangosfeydd ac Addysg (£5.442m) a Chasglu a Diogelu (£4.338m).

**Datganiad o'r Arferion a Argymhellir ar gyfer Elusennau**
Cyhoeddodd y Comisiynwyr Elusennau Ddatganiad o Arferion a Argymhellir (SORP) ar gyfer elusennau ym mis Hydref 1995 a ddiweddarwyd gan SORP Elusennau 2005. Mae'r Llyfrgell wedi cydymffurfio â'r SORP ers cyfrifon 1996/97.

**Prisio'r Asedau Sefydlog Diriaethol**
Comisiynodd y Llyfrgell Cooke & Arkwright, Syrfewyr Siartredig, i gynnal ailbrisiad o adeiladau a thir rhydd-ddaliad y Llyfrgell fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2012 a diweddarwyd hwn mewn prisiad interim ar 31 Mawrth 2015. Ailbrisiwyd y cyfarpar fel yr oedd ar 31 Mawrth 2012 yn unol â rheoliadau'r Trysorlys a'i gyfarwyddiadau cyfredol i gyrff cyhoeddus ar gyfrifyddu ar sail costau. Dangosir tir ac asedau sefydlog diriaethol eraill naill ai yn ôl gwerth y defnydd presennol ohonynt neu gost eu newid wedi'i ddibrisio. Addasir gwerthoedd yn flynyddol fel arfer drwy fynegeio rhwng pob prisiad ffurfiol sy'n digwydd bob pum mlynedd neu, os bydd newidiadau sylweddol wedi digwydd i werthoedd asedau, fel y digwyddodd yn 2014/15, gellir gwneud cais am brisiad rhwng y cyfnodau hyn.

**Asedau Diriaethol ac Asedau Treftadaeth**
Y prosiect adeiladu mwyaf sylweddol yn ystod y flwyddyn oedd y gwaith atgyweirio yn dilyn y tân yn Swyddfeydd Trydydd Adeilad y Llyfrgell. Roedd hwn hefyd yn cynnwys adfer ystafell gweinydd Tan y Bwlch ar y llawr gwaelod.

Yn unol â gofynion SORP Elusennau 2005, ers 1 Ebrill 2001 bu‟n rhaid i‟r Llyfrgell gofnodi gwerth yr Asedau Treftadaeth a brynwyd yn y fantolen. Ystyrir bod yr asedau hyn yn dod o fewn y diffiniad o asedau hanesyddol neu ddiymwad ac ni chânt eu dibrisio na‟u hailbrisio.

**Datblygiadau i’r Dyfodol**
Mae‟r Llyfrgell wedi paratoi ei chynllun corfforaethol o‟r enw “Gwybodaeth i Bawb”. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r pum prif flaenoriaeth strategol ar gyfer y Llyfrgell i'r dyfodol ar ôl 2014-2017, sef:

- Mynediad
- Arbenigedd
- Cynaliadwyedd
- Cydweithio
- Blaengaredd

Mae‟r cynllun gweithredol yn nodi nifer o amcanion allweddol ar gyfer 2014-2017:
- Arwain trafodaeth genedlaethol am y potensial i sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru
- Mynd ati i ddatblygu cyfleoedd masnachol ac ymchwilio i ffrydiau incwm newydd
- Datblygu Rhaglen Partneriaeth Gymunedol gydag eraill yn y sector cyhoeddus a chyfrannu at ymchwil ryngwladol
- Datblygu‟r Gwasanaeth Gwarchod a Chadwraeth Ddigidol ar gyfer Prosiect Treftadaeth Ddogfennol Cymru

**Cyflogi pobl anabl**
Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru drefn recriwtio nad yw‟n gwahaniaethu ac mae bob amser yn fodlon ystyried ceisiadau gan bobl anabl, a‟u penodi. Hefyd, mae'r Llyfrgell yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod gweithwyr anabl yn cael y cyfleusterau y maent eu hangen i gyflawni'u gwaith yn effeithiol.

**Polisi Talu i Gredydwyr**
Mae gan y Llyfrgell drefn fonitro i fesur perfformiad y Llyfrgell yn seiliedig ar y "Cod Trefn Talu'n Well" a chymerir sampl o anfonebau sydd wedi'u talu i asesu perfformiad. Yn ystod 2014/15, talwyd 98.4% o‟r anfonebau a dderbyniwyd cyn pen 30 diwrnod (2013/14 – 98.4%).

**Ymgynghori â Gweithwyr**
Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn rhoi gwybodaeth i staff mewn sawl ffordd gan gynnwys cyfarfodydd staff, sesiynau briffio tîm, memoranda agored, memoranda i Benaethiaid Adrannau, ac ymgynghori a negodi gyda Chyngor Whitley a'r Undebau Llafur.

**Aelodau'r Bwrdd**

Dyfarnwyd Siarter Frenhinol atodol gan E.M. y Frenhines Elizabeth yn y Cyfrin Gyngor ar 19 Gorffennaf 2006. Arweiniodd hyn at newidiadau i strwythur llywodraethu'r Llyfrgell.

Roedd y Siarter Atodol newydd yn diddymu'r Llys ac yn ail enwi'r corff gweithredol yn "Fwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell". Newidiodd nifer aelodau‟r Bwrdd (gostwng o 21 i 15) a‟r dull penodi (cynyddu nifer y penodiadau a wneir gan Lywodraeth Cymru o 3 i 8, gan gynnwys y Llywydd a‟r Is-lywydd, a gostwng nifer y penodiadau a wneir gan y Llyfrgell ei hun i 7). Bydd unrhyw bwerau a dyletswyddau a oedd gan yr hen Lys yn cael eu gwneud gan y Bwrdd.

Nid yw aelodau'r Bwrdd yn derbyn unrhyw dâl ac mae'r Llyfrgell yn dibynnu arnynt i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd a digwyddiadau eraill yn wirfoddol (er bod Siarter Atodol 2006 yn dyfarnu pŵer talu, yn amodol ar dderbyn caniatâd gan y Comisiwn Elusennau). Mae holl aelodau'r Bwrdd yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant sefydlu priodol a hyfforddiant arall.

**Strwythur y Sefydliad**

Y Llyfrgellydd yw‟r Swyddog Cyfrifyddu a bennir gan Lywodraeth Cymru. Caiff gymorth i gyflawni ei ddyletswyddau gan y Tîm Gweithredol y ceir eu manylion yn nodyn 6.

Mae gan y Llyfrgell un is-bwyllgor i'r Bwrdd, sef y Pwyllgor Archwilio. Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried materion sy'n ymwneud ag archwilio allanol, archwilio mewnol, rheoli risg a rheolaethau ariannol a chaiff y cofnodion eu cyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer eu cymeradwyo.

**Cynaliadwyedd**

Yn ystod mis Ionawr 2014, cafodd y Llyfrgell ei hasesu o dan Safon Rheoli‟r Amgylchedd BS 8555 a chadwodd ei hachrediad lefel 3. Mae gan y Llyfrgell Gofrestr Agweddau sydd wedi pennu‟r prif Effeithiau Amgylcheddol, sef ynni, papur, dŵr, gwastraff a chludiant.

Mae gallu'r Llyfrgell i wella'i pherfformiad amgylcheddol wedi'i gyfyngu oherwydd y gostyngiad difrifol yn yr arian a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'r grant cyfalaf sylfaenol o £0.55m yn ddigon mewn perthynas â maint a chymhlethdod gweithrediadau'r Llyfrgell.

Mae‟r ffigurau wedi cael eu hailwerthuso ers adroddiad y llynedd gan ddefnyddio‟r ffactorau trosi diweddaraf ac yn unol â chanllawiau cyfredol.

**Ynni**

| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr – Defnydd Ynni** | | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (1,000 tCO2e)** | Cyfanswm Allyriadau Gros | 1,895 | 1,718 | 1,720 |
| | Cyfanswm Allyriadau Net | 1,895 | 1,718 | 1,720 |
| | Allyriadau Gros Cwmpas 1 (uniongyrchol) | 627 | 575 | 579 |
| | Allyriadau Gros Cwmpas 2 (Anuniongyrchol) | 1,175 | 1,053 | 1,051 |
| | Allyriadau Gros Cwmpas 3 (Anuniongyrchol) | 93 | 90 | 90 |
| **Defnydd Cysylltiedig o Ynni (KWh)** | Trydan: Anadnewyddadwy | 2,554,876 | 2,364,472 | 2,358,799 |
| | Trydan: Adnewyddadwy | Dim | Dim | Dim |
| | Nwy | 3,385,455 | 3,124,612 | 3,148,131 |
| | LPG | Dim | Dim | Dim |
| | Arall | Dim | Dim | Dim |
| **Dangosyddion Ariannol (£)** | Nwy | £110,319 | £97,368 | £87,593 |
| | Trydan | £242,869 | £249,641 | £254,366 |
| | Cyfanswm Gwariant Net ar Ynni | £353,188 | £347,009 | £341,960 |
| | Gwariant y Drwydded CRC (2010 ymlaen) | Dim | Dim | Dim |
| | Gwariant ar wrthbwysiadau/gredydau carbon achrededig (e.e. GCOF) | Dim | Dim | Dim |
| | Gwariant ar deithiau busnes swyddogol | amh. | £87,805 | £71,432 |

Nodyn ar Ynni:

Mae‟r costau yn rhoi‟r cyfanswm ar gyfer y safle gan gynnwys ynni a ddarparwyd i adeilad cyfagos. Ond mae‟r defnydd/treuliant ar gyfer adeiladau'r Llyfrgell Genedlaethol yn unig.

Mae cludiant yn anuniongyrchol gan fwyaf drwy staff yn teithio i'r gwaith ac ymwelwyr â'r Llyfrgell ac nid yw'n cael ei gynnwys yn y ffigurau teithio. Mae'r Llyfrgell wedi cymryd camau i roi sylw i fater teithio ac mae'r gwasanaeth bws rheolaidd o'r dref i‟r Llyfrgell a'r Brifysgol wedi hen ennill ei blwyf. Mae arolwg o deithio gan staff wedi cael ei gynnal ac mae trafodaethau‟n parhau gyda TRACC i annog dewisiadau teithio gwahanol. Mae gan y Llyfrgell gynllun prynu beic ac mae‟n annog aelodau staff i feicio ac mae wedi darparu loceri ychwanegol er mwyn galluogi staff i gael cawod a newid ar ôl beicio i‟r gwaith.

Mae'r Llyfrgell wedi bod yn casglu data o'r AMR (system Darllen Mesuryddion Awtomatig) ers 30 mis a byddwn yn dadansoddi'r data er mwyn pennu'r meysydd lle defnyddir ynni er mwyn gallu‟u targedu i wneud gostyngiadau. Mae Cynllun Lleihau Carbon wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Carbon. Er mwyn cyflawni unrhyw arbedion sylweddol, mae'r Cynllun wedi nodi y bydd angen buddsoddi'n sylweddol ac, felly, bydd yn rhaid cael rhagor o arian gan Lywodraeth Cymru i'w weithredu. Mae nifer o gynlluniau wedi cael eu pennu ynghyd â rhagamcan o‟r costau a chyfnodau ad-dalu; bydd y rhain yn cael eu hystyried a'u datblygu dros y blynyddoedd nesaf yn dibynnu ar yr arian a fydd ar gael.

**Gwastraff**

| **Gwastraff** | | | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | Cyfanswm Gwastraff | | Tunelli 17.6 | Tunelli 37.7 | Tunelli 34.8 |
| **Anariannol** | Gwastraff Peryglus | Cyfanswm | Amh. | 15.1 Gwastraff o'r difrod tân | Amh. |
| **(tunelli)** | Heb fod yn beryglus | Tirlenwi | 7.8 | 7.1 | 9.69 |
| | | Sgipiau tirlenwi | Heb ei gofnodi | 5.5 | 4.04 |
| | | Ailddefnyddio/Ailgylchu | 7.2 | 7.7 | 16.6 |
| | | Compostio ar y safle | 2.6 | Dim | Dim |
| | | Compostio oddi ar y safle | Inc | 2.3 | 4.5 |
| | | Llosgi gan adfer ynni | Dim | Dim | Dim |
| | | Llosgi heb adfer ynni | Dim | Dim | Dim |
| **Dangosyddion** | Cyfanswm Cost Gwaredu (heb gynnwys gwastraff o'r tân) | | £2,198 | £1,933 | £2,858 |
| **Ariannol** | Gwastraff Peryglus | | Amh. | Amh Contractiwr | Amh. |
| **(£)** | Heb fod yn beryglus | Tirlenwi | £1,740 | £1,804 | £2,570 |
| | Gwastraff | Wedi'i ailddefnyddio / ailgylchu | Amh. | £6 | £24.50 |
| | | Compostio ar y safle | £458 | Dim | Dim |
| | | Compostio oddi ar y safle | Dim | £123 | £264 |
| | | Llosgi gan adfer ynni | Dim | Dim | Dim |
| | | Llosgi heb adfer ynni | Dim | Dim | Dim |

**Nodyn ar wastraff:**

Mae gwastraff garddwriaethol a gynhyrchir ar y safle yn cael ei gompostio ar y safle. Nid yw maint y gwastraff hwn yn cael ei fesur.

**Dŵr**

| **Y defnydd o ddŵr** | | | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (m3)** | Y defnydd o ddŵr (Y Stad Swyddfeydd) | Cyflenwyd | 6,048 | 6,539 | 7,698 |
| | | Tynnwyd | Dim | Dim | Dim |
| | | Fesul FTE | 21.37 | 23.44 | 27.69 |
| | Y defnydd o ddŵr (Y Stad heblaw Swyddfeydd) | Cyflenwyd | Dim | Dim | Dim |
| | | Tynnwyd | Dim | Dim | Dim |
| **Dangosyddion Ariannol (£k)** | Costau Cyflenwi Dŵr (Y Stad Swyddfeydd) | | £19,952 | £21,909 | £25,718 |
| | Costau Cyflenwi Dŵr (Y Stad heblaw Swyddfeydd) | | Dim | Dim | Dim |

**Nodyn ar ddŵr**

Roedd y defnydd a wnaed o ddŵr yn 2014/15 yn debyg i flynyddoedd blaenorol tan y chwarter olaf pan gynyddodd y defnydd yn sylweddol. Ymchwiliwyd i'r rhesymau dros hyn a chanfuwyd bod systemau dŵr yn gollwng. Cawsant eu hatgyweirio. Amcangyfrifir bod effaith y tân ym mis Ebrill 2013 ar y defnydd o ddŵr wedi bod yn 300 m^3 sy‟n rhannol gyfrifol am y defnydd uwch o ddŵr yn 2013/14. Mae mwy o ddefnydd yn cael ei wneud hefyd o'r cawodydd sydd, mae'n debyg, oherwydd bod mwy o staff yn beicio i'r gwaith. Disgwylir y bydd tapiau newydd â synwyryddion arnynt yn cael eu gosod yn y prif doiledau cyhoeddus er mwyn ceisio lleihau'r defnydd o ddŵr.

**Cludiant/Teithio**

| **Cludiant/Teithio** | | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol** | Cludiant Cwmpas 1 (Fan y Llyfrgell) | 11,810 Milltir | 12,841 Milltir | 13,816 Milltir |
| | | 11.2 tunnell | 12.2 tunnell | 13.1 tunnell |
| | Cludiant Cwmpas 3 (Car, Trên, Bws ac Awyren) | Amh. | 72.9 tunnell | 53.5 tunnell |
| **Dangosyddion Ariannol (£k)** | Cludiant Cwmpas 1 (Fan y Llyfrgell) | £3,402 | £4,010 | £5,320 |
| | Cludiant Cwmpas 3 (Car, Trên, Bws ac Awyren) | Amh. | £83,794 | £66,113 |

**Arall**

| | | 2013-14 Rimiau (cyfwerth ag A4) | 2014-15 Rimiau (cyfwerth ag A4) |
|---|---|---|---|
| **Papur a ddefnyddiwyd gan Staff** | Papur argraffu a ddefnyddiwyd gan staff ar gyfer swyddogaethau swyddfa | 2137 | 1,064 |
| **Papur a ddefnyddiwyd gan ymwelwyr/darllenwyr** | Papur argraffu a ddefnyddiwyd gan ymwelwyr/darllenwyr ar gyfer copïau personol | 355 | 238 |
| **Papur/Cerdyn arall** | Papur a cherdyn a ddefnyddiwyd yn y Llyfrgell ar gyfer hyrwyddo ac arddangosfeydd | 62 | 151 |
| **Cyfanswm y papur a ddefnyddiwyd** | | **2,554** | **1,453** |

**Adroddiad Taliadau**

Mae'r Llyfrgell yn talu'i holl staff o dan system talu a graddio, system y cytunwyd arni ac a gafodd ei chynllunio a'i chyflwyno'n benodol i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg a chyfartal. Datblygwyd y system bresennol yn fewnol gan yr Adran Gyllid ac fe‟i cymeradwywyd gan Dîm Gweithredol y Llyfrgell a chytunodd yr undebau staff iddi drwy‟r trefniadau cydfargeinio.

Mae‟r system hon yn berthnasol i‟r holl staff heblaw‟r Prif Weithredwr a‟r Llyfrgellydd (y cytunir ar ei delerau penodi gyda Llywodraeth Cymru). Mae proses apelio annibynnol ar waith i ystyried materion yn ymwneud â graddio. Bob blwyddyn, mewn ymgynghoriad ag undebau'r staff, mae'r Llyfrgell yn ystyried pecyn taliadau'r Llyfrgell yn erbyn cymaryddion allanol, symudiadau yn yr economi ac unrhyw annhegwch mewnol a all fod wedi datblygu. O hyn, cynhyrchir cylch cyflog neu gynnig, a chyflwynir hwn i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo, ac yna fe'i negodir yn ffurfiol â‟r undebau. Mae hyn yn arwain at becyn tâl ac amodau newydd ar gyfer holl staff y Llyfrgell sy‟n gyfrwymol tan y rownd negodi nesaf. Mae codiadau cynyddrannol dan y cylch cyflog yn dibynnu ar system y Llyfrgell o werthusiadau blynyddol. Mae elfennau chwyddiant sydd wedi'u cynnwys yn y cylch cyflog y cytunwyd arno yn cael eu dyfarnu'n awtomatig i bob aelod staff.

Mae cyflog y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd yn cynnwys cyflog sylfaenol ynghyd â bonws blynyddol heb ei gyfuno. Pennir ei dâl gan swyddogion y Llyfrgell (y Llywydd, yr Is-lywydd a'r Trysorydd), yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â‟r tâl uchaf ar gyfer Prif Weithredwyr. Wrth ystyried swm ei becyn tâl, mae perfformiad y Prif Weithredwr a‟r Llyfrgellydd yn cael ei gymharu yn erbyn amcanion a bennir ymlaen llaw, ac mae‟r swyddogion yn ystyried y gwerthusiad hwn o‟i berfformiad. Cyfunir canran o‟r dyfarniad i mewn i‟w gyflog blynyddol, a thelir gweddill y dyfarniad, hyd at uchafswm o 10%, fel taliad blynyddol heb ei gyfuno.

Mae gan y Prif Weithredwr a‟r Llyfrgellydd gontract cyflogaeth parhaol ac mae‟n aelod cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

Mae uwch aelodau staff eraill yn derbyn cyflog gros, y penderfynir arno fel rhan o'r broses o negodi'r cylch cyflog ar gyfer holl aelodau staff eraill y Llyfrgell. Cymeradwyir y cylch cyflog gan Lywodraeth Cymru. Mae gan yr uwch staff gontractau cyflogaeth parhaol ac maent yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell. Dangosir aelodau'r Tîm Gweithredol ar dudalen 20 a cheir rhagor o fanylion am y tâl a‟r buddion pensiwn yn Nodyn 6 (b) y cyfrifon.

Y cyfnod rhybudd ar gyfer aelodau‟r Tîm Gweithredol yw 3 mis. Mae darpariaeth ar gyfer digolledu am derfynu'n gynnar i'w chael yn nhrefniant dileu swydd safonol y Llyfrgell.

**Polisi Cronfeydd wrth Gefn Elusennau**

Yn unol â SORP Elusennau 2005, rhaid i'r Llyfrgell ddatgelu ei pholisi ar Gronfeydd wrth Gefn Elusennau. Cyfeirir at y polisi hwn a‟i bwrpas yn Nodyn 1(g) y cyfrifon.

Polisi cronfeydd wrth gefn y Llyfrgell gyda golwg ar ei Chronfeydd Cyhoeddus yw cydymffurfio â gofynion Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol Llywodraeth Cymru sy‟n nodi‟r fframwaith ariannol y mae gofyn i‟r Llyfrgell weithio iddo. Prif

ofyniad y Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn yw mai dim 2% o’r Cymorth Grant gros y gellir ei ddal fel balansau arian, er bod hwn wedi cael ei lacio i gynrychioli £4.2m yn ystod y flwyddyn ar gyfer balansau ar 31 Mawrth 2015.

Mae gan gronfeydd preifat digyfyngiad y Llyfrgell dri phrif amcan:

- Cyfrannu at gostau refeniw rhedeg gwasanaethau'r Llyfrgell
- Ategu Grant Prynu Casgliadau'r Llyfrgell i'w galluogi i gyflawni ei pholisi pryniannau.
- Cyllido'r gwaith o brynu asedau cyfalaf gan gynnwys cyfarpar, adeiladau a meddalwedd a chaledwedd cyfrifiadurol

Dim ond yn unol â thelerau datganedig y cymynroddion penodol y ceir defnyddio cronfeydd cyfyngedig preifat y Llyfrgell.

**Polisi Buddsoddi**
Yn y flwyddyn ariannol 2014/15, polisi buddsoddi’r Llyfrgell fu cynnal portffolio a fuddsoddir mewn ecwitïau a bondiau. Mae'r swm y gellir ei fuddsoddi mewn categorïau asedau gwahanol wedi'i bennu yn unol ag asesiad risg. Ystyrir bod agwedd y Llyfrgell at risg yn un "canolig", gan dderbyn y bydd risg yn deillio o fuddsoddi mewn bondiau ac ecwitïau er mwyn cael mwy o enillion na thrwy roi arian mewn cyfrif cadw.

Mae’r Llyfrgell wedi penodi rheolwyr buddsoddi, Investec Wealth & Investment, sy’n gyfrifol am fuddsoddi’r portffolio cronfeydd preifat. Mae meincnod wedi’i osod i’r rheolwyr ar gyfer perfformiad y portffolio buddsoddi, ac yn 2014/15, sicrhawyd enillion o 8.57% yn erbyn meincnod o 10.22% (2013/14 6.56% yn erbyn meincnod o 4.5%).

Rheolwyd y buddsoddiadau ar sail ddewisol yn unol â gofynion Deddf Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr 1961 ac yn fwy diweddar, Deddf Ymddiriedolwyr 2000. Caiff perfformiad y portffolios ei fonitro a’i gyflwyno ar ffurf adroddiad yn rheolaidd i Fwrdd y Llyfrgell. Ar 31 Mawrth 2015, gwerth yr arian a'r buddsoddiadau yn y farchnad oedd £8.361m (£6.273m ar 31 Mawrth 2014).

**Prosiectau**
Mae’r Llyfrgell wedi cael arian ychwanegol i ymgymryd â sawl prosiect mawr:

**Digido i Fusnes** (a elwr yn DigiDo) - dyma brosiect i gefnogi busnesau yng Nghymru sydd wedi’u lleoli yn rhanbarth Cydgyfeirio Cymru. Mae busnesau’n cael cymorth i ddefnyddio casgliadau digidol y Llyfrgell i ysgogi arloesedd ac i wella’u gallu i fod yn gystadleuol yn lleol ac yn fyd-eang drwy ddatblygu cynnyrch neu wasanaethau newydd. Yn ogystal â chasgliadau digidol y Llyfrgell, mae’r prosiect yn darparu gwybodaeth fusnes deilwredig i fynd i’r afael â materion penodol sy’n gysylltiedig â digido er mwyn gwella busnesau, gan ddarparu gwybodaeth arbenigol ar lefel uwch ar faterion yn amrywio o hawlfraint a thrwyddedu i gipio digidol, storio digidol a chadwraeth i chwilio drwy'r adnoddau presennol.
Mae'r prosiect yn cynnal digwyddiadau gwybodaeth rheolaidd yn y Llyfrgell i addysgu busnesau am y casgliadau digidol enfawr sydd ar gael iddynt eu defnyddio'n fasnachol. Mae cyfres o’r digwyddiadau hyn wedi bod yn llwyddiannus yn denu nifer o fusnesau. Mae rhagor o ddigwyddiadau gwybodaeth yn cael eu trefnu. Mae’r gwaith o farchnata’r prosiect yn cael ei wneud drwy wefan y prosiect (www.digido.org.uk). Mae digwyddiadau ar y cyd yn cael eu cynnal gyda sefydliadau fel Llywodraeth Cymru,

Inventorium a Chynghrair Meddalwedd Cymru, gyda chyflwyniadau mewn Cynadleddau fel Gorffennol Digidol 2013 ym mis Chwefror 2013.
Mae‟r prosiect yn canolbwyntio ar ddau o sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, TGCh a‟r Diwydiannau Creadigol, sy‟n cynnwys busnesau yn y maes teledu a chyfryngau newydd, achyddion/haneswyr teulu proffesiynol, cyhoeddwyr, stiwdios dylunio, diwydiannau crefft ar gyfer dyluniadau (e.e. crochenwaith, tecstiliau ayb.), artistiaid, ymchwil a threftadaeth ddiwylliannol.
Cafodd y prosiect ei lansio'n swyddogol yn adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd ar 13 Mawrth 2013. Y siaradwyr oedd Angharad Mair (Tinopolis), Elena Gruffudd (Barddas), Meic Parry (BBC), Alun Davies (y Dirprwy Weinidog dros Raglenni Ewropeaidd) ac Andrew Green (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).
Cwblhawyd prosiect DigiDo ym mis Mai 2015, a derbyniwyd grant o £1.768m oddi wrth yr UE.

**Cynefin**
Prosiect tair blynedd yw Cynefin i ddigido mapiau degwm Cymru a‟u gosod ar y We, ynghyd â rhestrau pennu'r degwm cysylltiedig, i greu map ar-lein a set ddata gysylltiedig y gellir chwilio drwyddi.

Mae‟r prosiect yn cael ei redeg gan bartneriaeth dan arweiniad Cyngor Archifau Cymru (ARCW) ac mae‟n cynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad y Werin, Archifdai ledled Gymru ynghyd â chymunedau a gwirfoddolwyr unigol. Bydd mapiau‟r degwm ar gael ar-lein gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chasgliad y Werin Cymru.

Mae cynnyrch y prosiect hefyd yn cynnwys chwe phrosiect cymunedol, sy'n defnyddio mapiau degwm fel man cychwyn ar gyfer ystyried themâu a phynciau sy‟n bwysig iddyn nhw ac y gall y gymuned gymryd perchnogaeth arnynt. Hefyd, bydd gweithdai‟n cael eu trefnu i hyrwyddo cysylltiad cymunedau ledled Cymru â‟r prosiect hwn a‟r defnydd o Fapiau Degwm.

Bydd prosiect Cynefin ar waith tan 30 Medi 2016 gyda chyfanswm cyllid o £573,909. Sicrhawyd cyllid allanol oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri, CyMAL a Chyngor Archifau a Chofnodion Cymru, a oedd yn cyfateb i 95% o gyfanswm y gwariant disgwyliedig.

**Prosiect Darganfod BFI**
Mae Cronfa Ddigidol Datgloi Treftadaeth Ffilm y BFI yn gweithio i sicrhau y bydd ein treftadaeth ffilm ar gael i bawb yn y DU ei mwynhau drwy fuddsoddi mewn digido, diogelu, dehongli a mynediad gyda'r nod yn y pendraw o sicrhau bod holl dreftadaeth ffilm y DU ar y sgrin ar gael i'r cyhoedd yn ddigidol.

Drwy ddigido ein treftadaeth, byddwn yn sicrhau y bydd pobl y DU, cynhyrchwyr ffilmiau, addysgwyr, ymchwilwyr a defnyddwyr eraill yn gallu cael mynediad i'r ystod llawn o ffilmiau Prydeinig a'u mwynhau, ni waeth ble y maen nhw'n byw na lle mae'r dreftadaeth ffilm honno yn cael ei chadw. Bydd y mynediad digyffelyb hwn yn gweddnewid ein dealltwriaeth o siâp, hanes ac amrywiaeth ffilm a theledu ym Mhrydain.

**Prosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf (y Rhyfel Mawr)**
Mae Prosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf yn creu deunyddiau dysgu sy'n galluogi pobl ifanc yng Nghymru i ddeall sut y newidiodd Cymru a'r byd o ganlyniad i'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r cynadleddau heddwch. Nod y prosiect yw cyflwyno'r newidiadau hyn o safbwynt Cymru gan ddefnyddio ffynonellau o'r cyfnod a ffynonellau eilaidd sy'n dod yn bennaf o Gymru, ac wedi'u datblygu mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru.

Maent yn adnoddau trawsgwricwlaidd, ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, ac yn gwbl ddwyieithog. Y bwriad yw iddynt gefnogi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r cwricwlwm yng Nghymru, ac maent ar gael drwy Hwb, Gwefan Addysg y Llyfrgell Genedlaethol, a gwefan Casgliad y Werin Cymru. Mae'r fformatau'n cynnwys iBooks, taflenni gwaith PDF, cynlluniau gwersi, clipiau o ffilmiau, eitemau unigol gyda dehongliadau a gwersi NearPod rhyngweithiol. Rydym yn defnyddio eitemau gwreiddiol o'r cyfnod o gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru ar Archif ITV Cymru/Wales sy'n cynnwys ffilm a fideo, hanesion llafar, ffotograffau, papurau newydd, paentiadau, mapiau, llythyrau, telegramau, a deunyddiau wedi'u harchifo.

Ariennir y prosiect drwy Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.

**Cymru yn y Rhyfel: Addysg ac Estyn Allan o Gwmpas Cofgolofnau Rhyfel Cymru**
Nod prosiect Cymru yn y Rhyfel yw datblygu ap ar gyfer dyfeisiau symudol/llechen yn dangos lleoliad cofgolofnau a beddi rhyfel. Hefyd, bydd gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn cael eu creu i gefnogi'r ap.

Bydd Cymru yn y Rhyfel yn datblygu gweithgarwch cynhwysol i blant ysgol ledled Cymru a fydd yn eu galluogi i ddatblygu bywgraffiadau o'r enwau ar Gofgolofnau Rhyfel Cymru. Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda chynrychiolwyr o'r lluoedd arfog, ac addysgwyr ac ysgolion yng Nghymru. Daw arian ar gyfer y prosiect o Gronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog, Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Lansiwyd y prosiect mewn digwyddiad ar HMS Westminster yng Nghaerdydd ar 27 Mehefin 2014.

**Busnes Byw**
Yn ei gyfarfod ar 21 Chwefror 2014, bu Bwrdd y Llyfrgell yn ystyried ei strategaeth ariannol am y tair blynedd nesaf. Byddai‟n rhaid i‟r Llyfrgell gwtogi nifer y staff y mae‟n eu cyflogi er mwyn gallu ymdopi'n llwyddiannus â'r toriadau difrifol sydd yn yr arfaeth yn ei hincwm. Yn y strategaeth ariannol, nodwyd y gallai fod angen i'r Bwrdd, ar ryw adeg ym mlwyddyn ariannol 2015/16, ystyried a fyddai‟r Llyfrgell yn parhau'n fusnes byw petai'n methu â lleihau‟i gwariant. O ganlyniad, mae'r Llyfrgell wedi gwneud nifer o ddiswyddiadau gwirfoddol gyda chyfanswm cost o £1.353M, gyda £0.601m wedi'i dalu yn ystod y flwyddyn, a £0.752m wedi'i ymrwymo ond heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Llyfrgell wedi nodi y bydd angen iddi wneud £0.32m arall o arbedion yn ei chyllideb graidd er mwyn gallu mantoli'i chyllideb. Mae'r broses hon yn cael sylw drwy gyfres o astudiaethau manwl o rai o feysydd busnes penodol y llyfrgell.

**Ymddiriedolwyr**
Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â'u dyletswydd yn Adran 11 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw dyladwy i'r canllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau.

**Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Bancwyr | Banc y National Westminster, Aberystwyth |
| Cyfreithwyr | Geldards LLP, Caerdydd |
| Archwilwyr Mewnol | Baker Tilly, Caerdydd |
| Broceriaid Buddsoddi | Investec Wealth & Investment |

Archwilydd

Mae'r Cyfrifon yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adran 9(8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar gyfer Cymru.

Aled Gruffudd Jones
PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD

10 Gorffennaf 2015
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth SY23 3BU

Colin R John
TRYSORYDD

10 Gorffennaf 2015

## DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R BWRDD A'R LLYFRGELLYDD

Dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, mae‟n ofynnol bod Bwrdd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn paratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a bennir gan weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chydsyniad y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon i roi darlun cywir a theg o weithgareddau ariannol y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn ac am ei sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi cyfrifon y Llyfrgell, mae‟n ofynnol bod y Bwrdd yn:

- Glynu wrth y cyfarwyddyd cyfrifyddu a gyhoeddir gan weinidogion Llywodraeth Cymru gan gynnwys y gofynion datgelu a chyfrifyddu perthnasol, a‟u defnyddio'n gyson.
- Gwneud penderfyniadau a rhagamcanion sy'n rhesymol a darbodus.
- Datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a'r datganiadau o arferion a argymhellir wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi‟r datganiadau ariannol ar sail busnes byw, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Llyfrgell yn parhau i weithredu.

Mae‟r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi dynodi‟r Llyfrgellydd yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Llyfrgell. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra‟r cyllid cyhoeddus y mae ef yn atebol amdano a thros gadw cofnodion priodol, yn cael eu disgrifio ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru.

**Datganiad Datgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol**
Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac mae‟r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylasai eu cymryd i sicrhau ei fod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o‟r wybodaeth honno.

**Datganiad Datgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol - Culturenet Cymru Ltd**
Cyn belled ag y gŵyr y cyfarwyddwyr, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol (fel y‟i diffinnir gan Adran 415 o Ddeddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilwyr y cwmni‟n ymwybodol ohoni, ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd yr holl gamau y dylai ef neu hi fod wedi‟u cymryd fel cyfarwyddwr er mwyn sicrhau ei fod ef neu hi‟n ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y cwmni‟n ymwybodol o‟r wybodaeth honno.

Aled Gruffudd Jones
PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD
10 Gorffennaf 2015

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:

Colin R John
TRYSORYDD
10 Gorffennaf 2015

# DATGANIAD LLYWODRAETHIANT

## 1. Cyfansoddiad

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru („y Llyfrgell‟) trwy Siarter Frenhinol ar 19 Mawrth 1907. Rhoddwyd Siarteri Atodol i‟r Llyfrgell ym 1911 ac ym 1978, a oedd yn diwygio‟r cyfansoddiad i ryw raddau. Ar 19 Gorffennaf 2006, caniataodd y Frenhines Siarter Atodol newydd. Roedd Siarter Atodol 2006 yn diddymu Siarter Atodol 1978 ac yn newid cyfansoddiad a llywodraethiant y Llyfrgell yn sylweddol. Ym mis Gorffennaf 2013, pasiodd y Bwrdd Ymddiriedolwyr Gynnig Arbennig i ddiwygio Statudau‛r Siarter Frenhinol, a‛u haddasu, yn unol â darpariaethau Erthygl 9 y Siarter. Mae‟r Llyfrgell hefyd yn elusen gofrestredig (rhif cofrestredig: 525775) ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae Dogfen Fframwaith a luniwyd gan CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru yn 2010, ac mewn ymgynghoriad â‟r Llyfrgell, yn nodi manylion yr amodau a thelerau y mae Gweinidogion Cymru yn darparu cymorth grant i‟r Llyfrgell oddi tanynt.

## 2. Amcan

Prif amcan y Llyfrgell yw: *casglu pob math o wybodaeth ar gof a chadw, ei gwarchod a rhoi mynediad iddi, yn enwedig yr wybodaeth honno sy'n ymwneud â Chymru a'r Cymry a phobl Geltaidd eraill, a hynny er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rheiny sy'n ymchwilio ac yn dysgu.* (Siarter Frenhinol 2006, paragraff 4.)

## 3. Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae‟r Datganiad Llywodraethiant hwn yn rhan o Fframwaith Llywodraethiant y Llyfrgell. Mabwysiadwyd Fframwaith Llywodraethiant ffurfiol gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2013, ynghyd â „Fframwaith Sicrwydd yn ymwneud â Rheoli Risg‟. Mae‟r Fframwaith yn gosod cyfrifoldebau allweddol Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru a‟i Thîm Gweithredol; pwerau dirprwyo‛r Bwrdd; yr ymddygiad a ddisgwylir gan y Bwrdd; a thrafodion y Bwrdd.

## 4. Sut mae'r Llyfrgell yn cael ei llywodraethu

### 4.1 Bwrdd Ymddiriedolwyr

Yr awdurdod sy‟n llywodraethu‟r Llyfrgell yw‛r Bwrdd Ymddiriedolwyr, ac mae‛n gyfrifol am lywodraethiant, rheolaeth ariannol ac asedau‛r sefydliad. Mae‟r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cwrdd yn rheolaidd, yn gyhoeddus, i gynnal ei fusnes.

Penodir ymddiriedolwyr gan Lywodraethu Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mewn niferoedd a osodir yn y Siarter Frenhinol ac yn unol ag egwyddorion detholiad agored, fel yr argymhellwyd gan Adolygiad Nolan. Dilyna pob un a benodir o‛r newydd raglen ymsefydlu, a gefnogir gan lawlyfr llywodraethiant cynhwysfawr, yn fuan wedi eu penodi. Ni chaiff aelodau eu talu.

Ar Fwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell mae yna 15 ymddiriedolwr. Penodir wyth ymddiriedolwr gan Lywodraeth Cymru a saith gan y Llyfrgell. Mae‟r ymddiriedolwyr yn cynnwys tri Swyddog y Llyfrgell – y Llywydd, yr Is-lywydd a‛r Trysorydd. Penodir

y Llywydd a‟r Is-lywydd gan Lywodraeth Cymru a phenodir y Trysorydd gan y Llyfrgell.

Rheoleiddir y berthynas rhwng y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru gan „Ddogfen Fframwaith‟, a chaiff ei monitro gan yr adran o fewn Llywodraeth Cymru sy‟n noddi‟r Llyfrgell, sef, ar hyn o bryd, CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda Gweinidog Cymru sydd â chyfrifoldeb portffolio dros y Llyfrgell (ar hyn o bryd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon) a‟i swyddogion.

Mae‟r Llyfrgell hefyd yn atebol i‟r Cynulliad Cenedlaethol.

Swyddfa Archwilio Cymru yw archwilwyr y Llyfrgell dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd.

Dyma‟r Ymddiriedolwyr ar hyn o bryd:

**Penodeion Gweinidogaethol**:

Arglwydd Aberdâr
Phil Cooper
Tricia Carter* (Is-lywydd)
Susan J. Davies
Roy Evans*
Syr Deian Hopkin (Llywydd)
Enid Morgan
Huw Williams

**Penodeion y Llyfrgell:**

Colin R. John (Trysorydd)*
Wyn Penri Jones* (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio)
Gareth Haulfryn Williams
Roy Roberts
Michael Trickey
D. Hugh Thomas

* Hefyd yn Aelodau o‟r Pwyllgor Archwilio

Sedd wag yn dilyn marwolaeth Mr John Gittins ym mis Ionawr 2015

Mae gofyn i ymddiriedolwyr weithredu er budd yr elusen yn unig, ac i beidio â gweithredu fel cynrychiolwyr neu ddirprwyon sectorau neu etholaethau penodol na‟u hapwyntai.

Er bod yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol yn y pendraw am y cyfan y mae‟r Llyfrgell yn ei wneud, oherwydd statws anweithredol y Bwrdd, er mwyn i‟r Llyfrgell ymgymryd â‟i chyfrifoldebau‟n briodol ac yn effeithiol, dirprwyir rheolaeth weithredol feunyddiol i‟r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, sydd hefyd yn Brif Swyddog Cyfrifyddu‟r Llyfrgell. Fodd bynnag, erys nifer o faterion gyda‟r Bwrdd, sef:

- sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni ei hamcanion, ei swyddogaethau cyffredinol a‟i dyletswyddau ac yn ymarfer y pwerau cyfreithiol sydd ganddi‟n briodol, dan Ddeddf Elusennau 2011 a deddfwriaeth arall;
- pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y Llyfrgell o fewn cyfyngiadau adnoddau;

- monitro perfformiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a’i dîm, eu dal yn gyfrifol am ymarfer y pwerau a ddirprwywyd iddynt a throsglwyddiad yn erbyn cynlluniau a chyllidebau;
- hyrwyddo cyfanrwydd y Llyfrgell a’i henw da, a’u diogelu;
- sicrhau safonau llywodraethiant uchel sy’n hawlio hyder y cyhoedd yn ei gyfanrwydd, cyllidwyr y Llyfrgell a’i rheoleiddiwr, yn ogystal â’i staff.

**Dyma Aelodau’r Tîm Gweithredol ar 31 Mawrth:**

**Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a Swyddog Cyfrifyddu**
Aled Gruffydd Jones MA, PhD, FRHistS

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth Corfforaethol a Phennaeth Cyllid**
David H Michael CPFA, MCIPS

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Casglu**
Avril Jones BA, DipLib, AMInstLM

## 4.2 Pwyllgor Archwilio

### 4.2.1 Cyflwyniad

Dim ond un pwyllgor sefydlog sydd gan y Bwrdd, sef y Pwyllgor Archwilio. Diffinnir amrediad y Pwyllgor gan ei Gylch Gwaith. Mae’n cwmpasu holl anghenion sicrwydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr a’r Swyddog Cyfrifyddu. O fewn hyn, fe fydd gan y Pwyllgor Archwilio ymgysylltiad penodol gyda’r gwaith Archwilio Mewnol a gwaith yr Archwilydd Allanol a materion adrodd ariannol.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, yn unol â Chylch Gwaith y Pwyllgor, wedi cynnal cyfarfodydd dwyochrog gyda’r Swyddog Cyfrifyddu, a gyda’r Archwilwyr Mewnol a’r Archwilydd Allanol a chyda Chadeirydd y Bwrdd.

Ar y Pwyllgor mae yna bum aelod Bwrdd a dau aelod annibynnol allanol. Yr aelodau presennol yw: Wyn Penri Jones (Cadeirydd); Colin R. John (Ymddiriedolwr a Thrysorydd); Tricia Carter (Ymddiriedolwr ac Is-lywydd); Roy Evans (Ymddiriedolwr); Mererid Jones (Aelod Annibynnol); Rob Gray (Aelod Annibynnol). Crëwyd sedd wag ar gyfer Ymddiriedolwr ym mis Ionawr 2015 yn dilyn marwolaeth anamserol Mr John Gittins. Fe fu John yn aelod diwyd a chlodwiw o’r Pwyllgor Archwilio am chwe blynedd. Mae archwilwyr mewnol y Llyfrgell a chynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn dod i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac mae’r adran sy’n noddi’r Llyfrgell, sef CyMAL, yn cadw’r hawl i gynrychiolydd ddod i un cyfarfod y flwyddyn.

Darperir archwiliad mewnol y Llyfrgell gan Baker Tilly yn unol â’r safonau a ddiffinnir yn Safonau Archwiliad Mewnol y Sector Cyhoeddus, ac maen nhw’n adrodd yn annibynnol i mi’n flynyddol ar ddigonolrwydd system rheolaeth fewnol y Llyfrgell a’i heffeithiolrwydd, ynghyd â chynnig argymhellion ar gyfer gwelliant. Cynhyrchir Adroddiadau ar Gynnydd Archwilio Mewnol yn rheolaidd gan Archwilwyr Mewnol y Llyfrgell, ac fe’u cyflwynir i’r Pwyllgor Archwilio er mwyn i aelodau adolygu datganiadau sicrwydd a thystiolaeth arall a ddarperir gan y rheolwyr, a’u herio; gan gynnig cymorth awdurdodol.

### 4.2.2 Amlder ac adrodd

Cyfarfu"r Pwyllgor bum gwaith yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2015. Cyflwynir cofnodion pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio i"r Bwrdd gan Gadeirydd y Pwyllgor, sydd hefyd yn tynnu sylw Ymddiriedolwyr at unrhyw faterion sy"n haeddu sylw arbennig.

### 4.2.3 Prif weithgareddau

Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar ddatganiad ariannol 2014-15 ac ni chododd unrhyw faterion gyda ffurflenni „Cyfrifon Llywodraeth Gyfan" y Llyfrgell.

Roedd y materion a drafodwyd yn ystod y flwyddyn a oedd o bryder mawr i Aelodau"r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys hyfywedd ariannol y Llyfrgell yn y tymor canolig. Gweler 7.1 isod.

Cyflwynwyd adroddiad ar ddigwyddiad yn ymwneud â diogelwch, a oedd wedi dangos achos potensial o dorri diogelwch data personol, gerbron y Pwyllgor Archwilio, a chafodd ystyriaeth fanwl gan Aelodau. Datgelwyd yr achos wedi i ddefnyddiwr ddweud iddo fynd i mewn i dudalen golygu noddwr defnyddiwr arall yn anfwriadol. Ond, ni theimlwyd bod y digwyddiad yn ddigon difrifol fel bod angen ei gyfeirio at y Comisiynydd Gwybodaeth. Er eu bod yn croesawu"r ffordd yr oedd staff wedi trafod y digwyddiad ac wedi dysgu ganddo, daeth Aelodau i"r casgliad y dylid cyflwyno system newydd yn lle"r system gyfrifiadurol dan sylw fel mater o frys, yn enwedig gan nad oedd y darparwyr gwreiddiol yn masnachu mwyach.

Cynhaliwyd nifer o archwiliadau mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

| **Maes a Archwiliwyd** | **Barn Gyffredinol** |
|---|---|
| Llywodraethiant | Gwyrdd |
| Rheoli Risg | Melyn/Gwyrdd |
| Rheolaeth | Melyn/Gwyrdd |

Seiliwyd barn Llywodraethiant yr archwilydd mewnol ar ei adolygiad o gydymffurfiaeth y Llyfrgell gyda"r Cod Llywodraethiant Gwirfoddol ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru. Daeth i"r casgliad fod gan y Llyfrgell fesurau rheoli priodol mewn lle i fodloni pob un o egwyddorion y Cod, ac ar y sail honno rhoddodd yr archwilwyr lefel sicrwydd Werdd.

Cynhaliwyd un adolygiad o sicrwydd yn seiliedig ar risg yn ystod y flwyddyn. Ystyriodd yr adolygiad drefniadau rheoli prosiect Y Rhyfel Byd Cyntaf a"r profiad Cymreig. Cafodd lefel sicrwydd Melyn/Gwyrdd.

Nodwyd hefyd na chafwyd unrhyw newidiadau i broses risg y Llyfrgell, a oedd wedi bod yn destun adolygiad archwilio yn flaenorol pan deimlwyd ei bod yn ddigonol. Ar y sail hon, rhoddodd yr archwilwyr lefel sicrwydd Melyn/Gwyrdd a oedd yn gyson â"r flwyddyn flaenorol.

O ran Rheolaeth, cynhaliodd yr archwilwyr mewnol bum adolygiad sicrwydd. O’r rhain, rhoddwyd dwy farn o sicrwydd Gwyrdd, dwy o Felyn/Gwyrdd ac un Goch.

Gofynnodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd i’r archwilwyr mewnol gynnal adolygiad o gydymffurfiaeth ar Gaffaeliad a Nwyddau a Gwasanaethau yn yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus, mewn ymateb i bryderon ynghylch diffyg cydymffurfiaeth â rheolau a chanllawiau caffaeliad. Yn adroddiad yr archwilydd, nodwyd, er gwaethaf fframwaith rheoli wedi’i ddiffinio’n dda, fod yna dystiolaeth sylweddol o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda’r rheoliadau ariannol a oedd wedi arwain at fethiant i gyflawni gwerth am arian. Rhoddwyd lefel Goch o sicrwydd i’r Adroddiad. Arweiniodd hyn at weithredu polisi disgyblu’r Llyfrgell, gan arwain at israddio uwch reolwr ac un aelod arall o staff o'u swyddi gan y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd. Arweiniodd hyn wedyn at wrandawiad y Tribiwnlys Cyflogaeth lle penderfynwyd bod (1) yr hawlwyr wedi eu diswyddo'n annheg a (b) y ddau wedi cyfrannu at eu diswyddo o 10%. Cyn y gwrandawiad Tribiwnlys Cyflogaeth roedd un o'r swyddogion wedi ymddiswyddo o'i swydd a'r swyddog arall wedi gwneud cais llwyddiannus ar gyfer diswyddo gwirfoddol a gadawodd wasanaeth y Llyfrgell ar ddiwedd mis Mawrth 2015.

Cytunodd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell i gomisiynu adolygiad allanol annibynnol o bolisi disgyblaeth y Llyfrgell a materion eraill, oedd wedi arwain at wrandawiad gerbron tribiwnlys cyflogaeth a ddaeth i'r casgliad bod dau aelod o staff wedi cael eu diswyddo'n annheg.

## 5. Perfformiad y Bwrdd a’i effeithiolrwydd

Cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2015, ac adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod mis Chwefror 2015. Cyflwynir casgliadau’r ddau Adolygiad, ynghyd â chynlluniau gweithredu perthnasol, gerbron y Bwrdd Ymddiriedolwyr ym mis Ebrill 2015, a cheir trafodaeth arnynt.

Parhaodd proses arfarnu’r Ymddiriedolwyr ac Aelodau’r Pwyllgor Archwilio, gyda’r nod o werthuso cyfraniad pob aelod unigol at waith y Bwrdd a’r Pwyllgor, yn ystod 2014/15. Mae’r broses hefyd wedi galluogi’r Llywydd a Chadeirydd Archwilio i roi sylw i unrhyw fater y maen nhw am ei drafod gydag Aelodau unigol.

## 6. Cyfarfodydd y Bwrdd

Yn ystod y cyfnod, cynhaliwyd 6 o gyfarfodydd y Bwrdd a oedd wedi’u hamserlennu, yn ogystal ag 1 cyfarfod ychwanegol i ystyried materion yn ymwneud â’r cynllun trawsnewidiad gweithredol. Allan o uchafswm posib o 90 presenoldeb posib gan aelodau, roedd cyfanswm o 86 presenoldeb. Cyhoeddwyd cofnodion y Bwrdd ac maen nhw ar gael ar wefan y Llyfrgell.

Collodd y Bwrdd un aelod yn ystod y flwyddyn. Fe fu Mr John Gittins yn Aelod o’r Bwrdd Ymddiriedolwyr ers 2007 ac fe fyddai wedi ymddeol ym mis Medi 2015. Cyfrannodd yn sylweddol at waith y Bwrdd a’r Llyfrgell ac fe fyddwn yn colli ei

gymorth yn fawr iawn. Roedd hefyd yn aelod Ymddiriedolwr o'r Pwyllgor Archwilio a Bwrdd Cynllun Pensiwn y Llyfrgell.

Fe ddechreuodd Mr Phil Cooper a Dr Susan Davies ar eu dyletswyddau fel Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn.

## 7. Materion o bwys a ystyriwyd gan y Bwrdd

### 7.1 Cyfyngiadau Ariannol

Mae Ymddiriedolwyr wedi cydnabod sefydlogrwydd ariannol y sefydliad – ac wedi'i drafod ar sawl achlysur – fel ffactor risg sylweddol i'r sefydliad. Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2014/15, roedd y Bwrdd Ymddiriedolwyr wedi ystyried ei strategaeth ariannol ar gyfer y 3 blynedd nesaf, pan adroddwyd y byddai angen i'r sefydliad ostwng y nifer o gyflogedigion mewn ymgais i roi sylw i'r gostyngiad sylweddol mewn Cymorth Grant. Mae pawb yn ymwybodol o'r ffaith y gallai methu â chwtogi ar wariant arwain at ansolfedd y sefydliad. Roedd y Tîm Gweithredol eisoes wedi gweithredu sawl mesur i gwtogi ar gostau, er enghraifft ni lenwyd nifer o swyddi pan ddaethant yn wag, ac roedd hyn yn cynnwys swyddi uwch reolwyr. Mae'r gostyngiadau yn y gyllideb yn dilyn cyfnod parhaus o bron i ddegawd o'r grant yn methu â chadw i fyny â chwyddiant. Mae'r posibiliadau ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd yn gyfyngedig, ac mae'r Llyfrgell yn bwriadu colli staff er mwyn aros yn hyfyw yn ariannol. Hefyd, mae angen i'r Llyfrgell i ryddhau adnoddau refeniw er mwyn gweithredu ei strategaeth newydd a fydd yn unioni ei allbynnau yn agosach â pholisïau Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol creu arbedion pellach ac mae hefyd yn newid rolau a chyfrifoldebau staff.

Mae'r Llyfrgell wedi derbyn arian Invest-2-Save i ariannu colli staff drwy gynlluniau diswyddo ac ymddeoliad cynnar, a ddechreuodd yn 2014/15. Bydd cyfrwng a chynaliadwyedd ariannol hirdymor y Llyfrgell yn dibynnu ar leihau nifer y staff y mae'n eu cyflogi yn sylweddol. Ar yr un pryd, mae angen mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyflog staff. O 1 Ionawr 2015 bydd y Llyfrgell yn bodloni gofynion Cyflog Byw a, fel mae'r materion ariannol yn cael eu datrys, mynd i'r afael â materion cyflog staff yn gyffredinol.

### 7.2 Cynllun Trawsnewidiad Gweithredol

Lansiwyd rhaglen ailstrwythuro gorfforaethol ym mis Medi 2014, mewn ymateb i ostyngiadau yn y Cymorth Grant a'r esblygiad yn anghenion defnyddwyr, defnyddwyr potensial a rhanddeiliaid. Ymarferwyd yr achos dros newid, a'i gyfeiriad, mewn sawl un o gyfarfodydd y Bwrdd. Cam cyntaf y trawsnewidiad oedd rhaglen o ailstrwythuro, a gychwynnwyd ym mis Hydref 2014, ac roedd yr ail gam yn canolbwyntio ar bobl, prosesau, prosiectau a gofod. Fe fydd y newidiadau mewn arferion gweithio a diwylliant sefydliadol sy'n deillio o'r newidiadau hyn yn galluogi'r Llyfrgell i symud tuag at fod yn sefydliad sy'n edrych tuag allan, sy'n ddeinamig ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gyda gweithredu, trosglwyddiad ac effaith yn elfennau creiddiol. Tra bod strwythurau diwygiedig a defnyddio technolegau cyfathrebu yn mynd i wella gwasanaethau'r Llyfrgell, yn y pendraw, gellir ond sicrhau lefelau gwasanaeth uwch trwy gyfuniad o sgiliau, ysgogiad ac ymroddiad proffesiynol staff y Llyfrgell. Fe fydd buddsoddi mewn staff yn elfen allweddol o drawsnewid. Yn amlwg, fe fydd pecynnau tâl yn rhan

hanfodol o‟r gymysgedd, gan sicrhau bod gan y Llyfrgell fantais gystadleuol wrth ddenu staff sydd â‟r sgiliau priodol, a‟u cadw.

Fe fydd y rhaglen o ailstrwythuro‟n arwain at ostyngiad mewn niferoedd staff, yn bennaf trwy ddileu swyddi‟n wirfoddol, ymddeoliad ac adleoli. Yn anffodus, er yn anochel, roedd angen dileu nifer o swyddi‟n orfodol. Er y bydd y gostyngiadau hyn mewn niferoedd staff yn galluogi‟r Llyfrgell i fodloni ei heriau ariannol presennol, mae‟r Bwrdd yn dal i ystyried yr angen i sicrhau bod yr adnoddau staff priodol mewn lle i drosglwyddo‟r strategaeth.

### 7.3 Adeilad y Llyfrgell

Comisiynodd y Bwrdd baratoad Rhaglen Cynnal a Chadw Asedau Adeiledig byr dymor (5 mlynedd) a fyddai‟n cael ei chostio a‟i mesur fel sylfaen ar gyfer ystyriaeth aeddfed. Mae Llywodraeth Cymru‟n ymwybodol o‟r arian ychwanegol sydd ei angen ar gyfer gwaith cynnal a chadw dybryd, i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch statudol ac felly i ddiogelu ei statws eiconig ac ystorfa ddibynadwy.

Yn 2014-15, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu buddsoddiad cyfalaf ychwanegol i'r Llyfrgell er mwyn galluogi gwaith adfer a datblygu hanfodol mewn adeiladau ac isadeiledd y Llyfrgell. Bydd y gwaith adeiladu sylweddol yn cael ei gwblhau yn 2015/16, gan gynnwys prosiect mewnlenwi„r cwrt.

### 7.4 Cynllun Pensiwn

Yn ystod y flwyddyn, hysbyswyd y Llyfrgell gan y Trysorlys, trwy Lywodraeth Cymru, fod yn rhaid i‟r sefydliad wneud newidiadau i‟w gynllun pensiwn er mwyn sicrhau ei fod yn “gynaliadwy”, yn unol ag adroddiad Hutton. Ymddengys nad oedd y ffaith fod y Cynllun wedi‟i gyllido‟n llwyr yn ffactor yn yr asesiad, ac roedd Ymddiriedolwyr yn bryderus i glywed fod y newidiadau a wnaed i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil wedi arwain at gynnydd treth o 2% yn uwch na‟r Llyfrgell o ran cyfraniad y cyflogwr. Mae‟r Llyfrgell yn ceisio cael ei heithrio rhag y newidiadau hyn, a chyflwynwyd cais i Lywodraeth Cymru a‟r Trysorlys.

### 7.4 Tân difrifol 26 Ebrill 2013

Mae‟r trafodaethau‟n parhau rhwng y Llyfrgell, ei chynghorwyr cyfreithiol, diddymwyr y contractwr toeon a Llywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn.

### 7.5 Cydleoli Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Cafwyd trafodaethau yn ystod 2014/15 ar lefel y Bwrdd a gyda phartneriaid allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gyda‟r nod o gyflwyno trefniadau i leoli‟r Cofnod Henebion Cenedlaethol a gwasanaethau cysylltiedig yn y Llyfrgell. Cytunwyd ar nawdd cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i alluogi i hyn ddigwydd. Cafwyd trafodaethau adeiladol rhwng y Llyfrgell, y Comisiwn a Llywodraeth Cymru a dylai arwain at ddatrysiad a fydd yn addas i‟r ddau sefydliad.

## 8. Cod Arfer Gorau ar Lywodraethiant Corfforaethol

Cyn belled ag y bod y Swyddog Cyfrifyddu a"r Bwrdd yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Llyfrgell yn ymwybodol ohoni, ac mae"r Swyddog Cyfrifyddu a"r Bwrdd wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi eu cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Llyfrgell yn ymwybodol o"r wybodaeth honno. Mae"r Llyfrgell wedi gweithredu yn unol â dogfen „Corporate Governance in central government departments: Code of good practice" Trysorlys Ei Mawrhydi, cyhyd ag y bod ymddygiad ei threfniadau llywodraethiant yn berthnasol, ac fe fydd yr adran sy"n ei noddi, CyMAL, wedi sicrhau, eto yn unol â"r cod ymarfer penodol hwn, fod gan y Llyfrgell drefniadau Llywodraethiant cadarn mewn lle i hyrwyddo perfformiad uchel ac i ddiogelu cyfiawnder a rheoleidd-dra.

Yn 2014, cefnogodd y Llyfrgell Ysgrifennydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr i ennill cymhwyster proffesiynol mewn llywodraethiant corfforaethol; mae wedi cael profiad gwerthfawr ac ymarferol o ddefnyddio"r hyn a ddysgodd o fewn y Llyfrgell ac er ei budd. O ganlyniad, mae"r Llyfrgell mewn sefyllfa ragorol i arfarnu ei harferion llywodraethiant corfforaethol ei hun, i sicrhau bod y sefydliad yn cadw at arferion da ond hefyd yn gwella"i llywodraethiant yn barhaus. Mae"r codau y soniwyd amdanynt uchod yn declynnau defnyddiol ar gyfer hunanasesiad sefydliad. Mae"r Ysgrifennydd, gyda gwybodaeth a chydweithrediad llawn y Tîm Gweithredol, yn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio (yn ogystal ag archwilwyr mewnol ac allanol) a"r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, a bod digon o amser yn cael ei neilltuo i drafod unrhyw faterion perthnasol.

Fel elusen gofrestredig, mae"r Llyfrgell wedi ymddwyn yn unol â Dilysnodau"r Comisiwn Elusennau ar gyfer Elusen Effeithiol a chanllawiau a chodau ymarfer The Essential Trustee, ond hefyd wedi sicrhau bod ein hymddiriedolwyr yn ymwybodol o"r canllawiau pwysig hyn.

## 9. Rheoli Risg

Seiliwyd system rheolaeth fewnol y Llyfrgell, fel y nodwyd yn ei „Fframwaith sicrwydd yn ymwneud â Rheoli Risg", ar broses barhaus a gynlluniwyd i adnabod unrhyw risgiau i gyrhaeddiad ei Strategaeth a"i Chynllun Gweithredol blynyddol, a"u blaenoriaethu; i werthuso"r tebygolrwydd o wireddu"r risgiau hynny a"u heffaith os digwydd iddynt gael eu gwireddu; ac i"w rheoli"n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Unwaith eto, gweithredwyd y broses barhaus hon yn y Llyfrgell dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 a hyd at ddyddiad cymeradwyo"r adroddiad blynyddol a"r cyfrifon, ac mae"n cydymffurfio â chanllawiau"r Trysorlys.

Yn ei chofrestr risgiau corfforaethol, mae"r Llyfrgell wedi nodi"r prif risgiau strategol a gweithredol mewn perthynas â gweithgareddau"r Llyfrgell, ac wedi"u dogfennu, eu hasesu a"u hystyried. Cafodd y rhain eu hystyried hefyd gan y Tîm Gweithredol, a chymerwyd camau fel sy"n briodol i"w rheoli. Defnyddiodd y Llyfrgell y system Briff Craidd (ffordd o gyfathrebu negeseuon corfforaethol allweddol i staff) i ddweud wrth staff beth yw eu dyletswyddau mewn perthynas â rheoli risg, a"u hannog i gyfrannu at y broses.

Adolygir cofrestr risgiau corfforaethol y Llyfrgell, a chaiff ei diweddaru ddwywaith y flwyddyn, ac mae angen i gyfarwyddwr pob adran gyfrannu at y broses hon. Caiff risgiau a nodwyd eu cynnwys yn y gofrestr risgiau a‟u hasesu i weld a ydynt yn cyflwyno risg strategol, gweithredol, ariannol neu gydymffurfiaeth. Yna, caiff risgiau eu graddio i weld a fyddai ganddynt effaith uchel, canolig neu isel, a gwneir yr un asesiad o‟u tebygolrwydd o ddigwydd. Cymeradwywyd rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, archwilio mewnol, y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a Phenaethiaid Cyfarwyddiaeth a‟u staff. Mae‟r Pwyllgor Archwilio hefyd yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig ar y gofrestr risg sydd wedi‟i diweddaru, ddwywaith y flwyddyn.

Y disgrifiad gorau ar gyfer archwaeth y Llyfrgell am risg yw „canolig‟. Er mwyn gosod hyn mewn cyd-destun, ni all y Llyfrgell fforddio bod mor „wrth risg‟ â‟r Gwasanaeth Sifil. Mae hyn am ei bod yn arweinydd mewn sawl maes arbenigol, fel digideiddio, ble mae angen arbrofi, ac, yn anochel, fe fydd rhywfaint o fethiant, a hefyd pwysau cynyddol i uchafu lefel y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer y cyhoedd a chadw‟r gost gysylltiedig i leiafswm. Fodd bynnag, nid yw‟n fath o sefydliad sy‟n gallu fforddio bod yn ddi-hid, oherwydd mae ganddi enw da i‟w chynnal ac mae‟n cael ei hariannu i raddau helaeth o‟r pwrs cyhoeddus. O ganlyniad, mae‟r Llyfrgell yn barod i gymryd lefel uwch o risg mewn rhai meysydd, tra‟n cydnabod y gallai fod rhai canlyniadau negyddol o bryd i‟w gilydd.

Mae‟r risg mwyaf sylweddol i‟r Llyfrgell yn y dyfodol yn ymwneud â‟r posibilrwydd o ostyngiadau pellach yng Nghymorth Grant Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i bwysau ar wariant cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, i lefel ble nad yw‟r Llyfrgell yn gallu trosglwyddo‟i hamcanion. Eisoes mae‟r Llyfrgell wedi cymryd camau i roi sylw i‟r angen i ostwng costau i gyfateb â‟r incwm a dderbynnir. Ond, ni ellir diystyru‟r posibilrwydd o doriadau pellach i incwm.

Gweithredodd y Llyfrgell bolisïau a gweithdrefnau sy‟n sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Diogelu Data 1988. Prin iawn yw‟r achosion ble gellid rhoi data personol i drydydd person, er enghraifft i‟r Actwari, naill ai fel rhan o‟r broses brisio deirblwydd neu gyfrifiadau unigol. Er mwyn rhoi data i drydydd person mae angen cymeradwyaeth aelod uwch o‟r Llyfrgell.

Mae‟r Pwyllgor Archwilio‟n derbyn copïau o bob adroddiad ar archwilio mewnol i‟w ystyried, ac mae‟n monitro digonolrwydd ymatebion rheolwyr i‟r argymhellion hynny sy‟n rhoi sylw i risgiau a gwendidau mewn rheolaeth fewnol. Caiff cofnodion y Pwyllgor Archwilio eu hadrodd gan ei Gadeirydd gerbron Bwrdd y Llyfrgell, i‟w cymeradwyo.

**Edrych Ymlaen**

Mae‟r Llyfrgell yn wynebu cyfnod o newid digynsail, ac ni ddylid tanamcanu‟r her o arwain y sefydliad trwy‟r cyfnod hwn. Yn ystod misoedd diweddar, treuliwyd llawer o amser yn alinio adnoddau at nodau strategol. Nod ein cynllun trawsnewid gweithredol oedd dylunio strwythur cynhwysol, deinamig, gwydn, cynaliadwy sy‟n alinio at drosglwyddiad ein Cynllun Strategol *Gwybodaeth i Bawb*. Byddwn yn parhau i wella‟n gwasanaeth cyhoeddus ac i ehangu ein hamrywiaeth o ddefnyddwyr. Caiff cynnydd y Cynllun Strategol ei fesur yn rheolaidd yn erbyn targedau y cytunodd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru arnynt trwy CyMAL. Byddwn yn

ymdrechu i gynyddu „effaith‟ y Llyfrgell ar gymunedau a bywydau unigolion. Ein nod yw sicrhau bod y Llyfrgell Genedlaethol, fel sefydliad cenedlaethol, yn parhau i wneud gwahaniaeth sylweddol i ddiwylliant Cymru gyfan, ei chymdeithas a‟i heconomi. Byddwn yn ymatebol i‟n defnyddwyr, nawr ac yn y dyfodol. Byddwn yn ysbrydoli‟n dysgwyr, o bob oed, yn cefnogi‟n sector busnes ac yn hybu delwedd Cymru dramor. Gwnawn bob ymdrech i sicrhau bod casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dod yn fwy a mwy hygyrch ymhob cartref yng Nghymru, waeth beth yw‟r heriau anodd yr ydyn ni‟n eu hwynebu.

Aled Gruffydd Jones
Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a Swyddog Cyfrifyddu
10 Gorffennaf 2015

Ardystiwyd ar ran y Bwrdd gan:

Colin R John
Trysorydd
10 Gorffennaf 2015

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llyfrgell Genedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 o dan y Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau. Mae‟r rhain yn cynnwys y Datganiad Gweithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian aʻr nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilioʻr wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau y nodir ei bod wedi‟i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

**Priod gyfrifoldebau'r Llyfrgellydd a'r archwilydd**
Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Llyfrgellydd, y Llyfrgellydd sy‟n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol, yn unol â‟r Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau a chyfarwyddiadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.
Fy nghyfrifoldeb i yw archwilioʻr datganiadau ariannol a‟r rhan oʻr adroddiad taliadau i‟w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). O dan y safonau hyn, maeʻn rhaid imi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**
Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a‟r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny trwy gamgymeriad neu dwyll. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac wedi'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw‟r amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.
Hefyd, mae'n rhaid i mi gael tystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.
Yn ogystal, byddaf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn canfod anghysondebau perthnasol âʻr datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, rwyʻn ystyried yr oblygiadau iʻm hadroddiad.

**Barn ar y Datganiadau Ariannol**
Yn fy marn i, mae‟r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2015 ac o'i gwarged, ei henillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- wedi cael eu paratoi‟n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau.

**Barn ar Reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae‟r gwariant a‟r incwm wedi cael ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae‟r trafodion ariannol yn cydymffurfio âʻr awdurdodau sy‟n eu rheoli.

**Barn ar faterion eraill**
Yn fy marn i:

- mae‟r rhan o‟r Adroddiad Taliadau i‟w harchwilio wedi cael ei pharatoi‟n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed o dan y Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau; ac

- mae‟r wybodaeth sy‟n cynnwys nifer o eitemau sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â‟r datganiadau ariannol.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**
Nid oes gennyf ddim i‟w nodi yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt i chi os, yn fy marn i:

- nad yw‟r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM;
- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran taliadau a thrafodion eraill; neu
- Nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a‟r esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Adroddiad**
Nid oes gennyf sylwadau i‟w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

10 Gorffennaf 2015

# DATGANIAD GWEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015

| | Nodiadau | CRONFEYDD Digyfyngiad £'000 | CYHOEDDUS Cyfyngedig £'000 | CRONFEYDD Digyfyngiad £'000 | PREIFAT Cyfyngedig £'000 | 2014/15 Cyfanswm £'000 | 2013/14 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ADNODDAU A DDERBYNIWYD** | | | | | | | |
| Incwm Masnachu | 4 | **572** | | | | **572** | **506** |
| Rhoddion a chymynroddion | 8 | | | **1,196** | **28** | **1,224** | **588** |
| Incwm Buddsoddi | 8 | | | **164** | **24** | **188** | **184** |
| Grantiau Eraill | 3 | **1,637** | **47** | | | **1,684** | **1,516** |
| Grantiau'r Llywodraeth | 2 | **10,541** | **4,088** | | | **14,629** | **13,910** |
| **CYFANSWM YR ADNODDAU A DDERBYNIWYD** | | **12,750** | **4,135** | **1,360** | **52** | **18,297** | **16,704** |
| **ADNODDAU A WARIWYD** | 5 | | | | | | |
| Cost Cynhyrchu Arian | | | | | | | |
| Incwm gwirfoddol | | **91** | **8** | **26** | **3** | **128** | **136** |
| Masnachu i godi arian | | **470** | **41** | | | **511** | **737** |
| Gwariant Elusennol Uniongyrchol: | | | | | | | |
| Casglu a Diogelu | | **3,995** | **342** | | | **4,337** | **4,021** |
| Marchnata, Arddangosfeydd ac Addysg | | **5,002** | **428** | **2** | **10** | **5,442** | **5,451** |
| Cadwraeth | | **1,429** | **122** | | | **1,551** | **1,684** |
| Llywodraethiant | | **1,299** | **111** | | | **1,410** | **1,203** |
| **Eitem eithriadol** | 22 | | | | | | |
| To | | **39** | | | | **39** | **438** |
| Tribiwnlys | | **88** | | | | **88** | **0** |
| Terfynu swyddi | | **1,353** | | | | **1,353** | **0** |
| Trydydd Adeilad y Llyfrgell - Cam 3 | | | **652** | | | **652** | **0** |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd** | | **13,766** | **1,704** | **28** | **13** | **15,511** | **13,670** |
| Costau Cyllid Pensiwn | 5 | **10** | | | | **10** | **(40)** |
| **CYFANSWM YR ADNODDAU A WARIWYD** | | **13,776** | **1,704** | **28** | **13** | **15,521** | **13,630** |
| ADNODDAU NET A DDERBYNIWYD /(A WARIWYD) CYN TROSGLWYDDIADAU | | **(1,026)** | **2,431** | **1,332** | **39** | **2,776** | **3,074** |
| Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd | | | (289) | 289 | | - | - |
| **ADNODDAU NET A DDERBYNIWYD/ (A WARIWYD) AM Y FLWYDDYN ARIANNOL** | | **(1,026)** | **2,142** | **1,621** | **39** | **2,776** | **3,074** |
| Enillion /(Colledion) wrth waredu asedau sefydlog diriaethol | 7 | | | | | | **-** |
| Enillion ar waredu asedau y'u bwriadwyd ar gyfer buddsoddi | 8 | | | **158** | **22** | **180** | **87** |
| Enillionnn /(colledion) heb eu gwireddu ar: Buddsoddiadau | 8 | | | **243** | **5** | **248** | **142** |
| Ailbrisio Asedau Sefydlog Diriaethol | 7 | | **(2,808)** | | | **(2,808)** | **4,071** |
| Rhoddion i'r Casgliad | 10 | | | | **210** | **210** | **200** |
| Enillion (colledion) actiwaraidd ar y cynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio | 21 | **3,090** | | | | **3,090** | **(6,170)** |
| **SYMUDIAD NET YN Y CRONFEYDD AM Y** | | **2,064** | **(666)** | **2,022** | **276** | **3,696** | **1,404** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **FLWYDDYN ARIANNOL** | | | | | | | |
| BALANSAU'R CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN AR 1 EBRILL | 13 | **(7,572)** | **79,614** | **5,487** | **7,399** | **84,928** | **83,524** |
| **BALANSAU'R CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN AR 31 MAWRTH** | 13 | **(5,508)** | **78,948** | **7,509** | **7,675** | **88,624** | **84,928** |

Mae pob gweithgarwch yn parhau. Caiff yr holl enillion a cholledion cydnabyddedig eu cofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol. Mae'r nodiadau ar dudalennau 33 i 55 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2015

| | Nodiadau | **31 Mawrth 2015** **£000** | | **31 Mawrth 2014** £000 |
|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | |
| Asedau Diriaethol | 7 | 61,571 | | 64,289 |
| Asedau Treftadaeth | 10 | 19,435 | | 18,744 |
| Buddsoddiadau | 9 | 8,361 | | 6,273 |
| | | **89,367** | | **89,306** |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | |
| Stociau | | 55 | | 50 |
| Dyledwyr | 11 | 1,844 | | 753 |
| Banc | | 5,124 | | 3,716 |
| | | 7,023 | | 4,519 |
| **CREDYDWYR** | | | | |
| Banc | | (404) | | (202) |
| Symiau a ddaw’n ddyledus o fewn blwyddyn | 12 | (1,712) | | (415) |
| | | (1,616) | | (617) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | **4,907** | | **3,902** |
| Asedau net heb gynnwys rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | | | **94,274** | **93,208** |
| Ased pensiwn â’r buddion wedi’u diffinio (rhwymedigaeth) | 21 | | **(5,650)** | **(8,280)** |
| **ASEDAU NET GAN GYNNWYS RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN** | | | **88,624** | **84,928** |
| **CRONFEYDD** | 13 | | | |
| Cyhoeddus Digyfyngiad | | 141 | | 708 |
| Pensiwn wrth gefn | | (5,650) | | (8,280) |
| Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad | | **(5,508)** | | **(7,572)** |
| Cyhoeddus Cyfyngedig | | 78,948 | | 79,614 |
| Preifat Digyfyngiad | | 7,509 | | 5,487 |
| Preifat Cyfyngedig | | 854 | | 788 |
| Casgliadau Cyfyngedig Preifat | | 6,821 | | 6,611 |
| | | **94,132** | | **92,500** |
| | | | **88,624** | **84,928** |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 33 i 55 yn rhan o’r cyfrifon hyn

| | |
|---|---|
| Aled Gruffudd Jones<br>PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD<br>10 Gorffennaf 2015 | Colin R John<br>TRYSORYDD<br><br>10 Gorffennaf 2015 |

## DATGANIAD LLIF ARIAN AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2015

| | | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** |
| Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol | 15 | 5,140 | 3,974 |
| Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol | 16 | (3,555) | (2,059) |
| Rheoli adnoddau hylifol | 17 | (379) | 175 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn Arian | | 1,206 | 2,090 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 34 i 58 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# NODIADAU I'R CYFRIFON AR 31 MAWRTH 2015

## 1. POLISIAU CYFRIFYDDU

### (a) Confensiynau Cyfrifyddu

Paratoir y cyfrifon dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gynnwys ailbrisiad o’r asedau sefydlog, ac maent yn cydymffurfio â’r Datganiad o’r Arferion a Argymhellir “Cyfrifyddu gan Elusennau” a gyhoeddir gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr a Chyfarwyddyd Cyfrifyddu 2000 a roddwyd i’r Llyfrgell gan Lywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Paratoir y cyfrifon ar sail busnes byw.

Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae’r cyfrifon yn bodloni gofynion y Safonau Cyfrifyddu a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu i’r graddau y bo'r gofynion hynny’n briodol. Nid yw'r Cyfarwyddyd Cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llyfrgell lunio cyfrif incwm a gwariant cryno na nodyn cost hanesyddol ar wargedau neu ddiffygion.

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu'r datganiadau ariannol hyn i’w cyhoeddi ar 10 Gorffennaf 2015.

### (b) Adnoddau a dderbyniwyd

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol pan fydd yr amodau ar gyfer eu derbyn wedi cael eu bodloni. Rhoddir cymorth grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau cynnal a gwariant cyfalaf. Cydnabyddir pob Cymorth Grant yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ym mlwyddyn ei roi. Caiff grantiau eraill a dderbyniwyd eu cydnabod ar sail derbyniadau pan mae amodau’r grantiau wedi'u bodloni. Rhoddir cyfrif am roddion, cymynroddion ac incwm gwirfoddol pan gânt eu derbyn. Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau o gronfeydd preifat ar ôl ystyried y symudiadau yn y cyfalaf gweithio. Bydd incwm a dderbyniwyd yng nghyswllt cyfnodau cyfrifyddu dilynol yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

### (c) Gwariant

Dosberthir gwariant dan y prif gategorïau gwariant elusennol a gwariant arall yn hytrach na’r math o wariant, er mwyn rhoi gwybodaeth fwy defnyddiol i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol. Caiff gwariant ei gydnabod yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol pan gaiff nwyddau a gwasanaethau eu derbyn.

Mae costau gweinyddu a gwariant elusennol yn cynnwys gwariant uniongyrchol gan gynnwys costau staff uniongyrchol a briodolir i'r gweithgarwch. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol, maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gydnaws â'r defnydd o'r adnoddau.

Trosglwyddir arian o’r Cronfeydd Preifat Digyfyngiad ar ddiwedd y flwyddyn i ategu’r arian Cymorth Grant.

Costau cyhoeddusrwydd a chodi arian yw'r costau hynny a wynebir wrth geisio cyfraniadau gwirfoddol ar gyfer y Llyfrgell ac i roi cyhoeddusrwydd i'r Llyfrgell.

Y costau llywodraethu yw’r rheini a wynebir mewn perthynas â rheoli asedau’r Llyfrgell, gweinyddu’r sefydliad a chydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol a statudol.

(d) **Asedau treftadaeth**

At ddibenion SORP 2005, caiff y casgliadau eu trin fel asedau Treftadaeth.
Cyn 1 Ebrill 2001, nid oedd casgliad y Llyfrgell wedi‟i gyfalafu yn y fantolen. Rhoddwyd pryniannau i‛r casgliad dan bennawd Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ym mlwyddyn eu caffael. Yn unol â gofynion SORP Elusennau 2005, cyfalafir pryniannau ar gyfer y casgliad ym mlwyddyn eu caffael a‟u cadw ar eu gwerth hanesyddol; ni chaiff yr asedau hyn eu hailbrisio na'u mynegeio.

Rhoddir cyfrif am eitemau sy'n cael eu rhoi yn rhoddion i'r casgliadau pan gânt eu derbyn ar ragamcan o'u gwerth ar y farchnad. Nid yw‛r asedau hyn yn cael eu hailbrisio na'u mynegeio.

Nid yw Asedau Treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod iddynt oes amhenodol.

Bydd gwerth ased ar bapur (*carrying amount*) yn cael ei adolygu dim ond lle ceir tystiolaeth o amhariad (*impairment*).

(e) **Stociau**

Mae cost stociau o eitemau y gellir eu hailwerthu ar gyfer siop y Llyfrgell wedi‟i chydnabod yn y fantolen yn ôl y gost neu‛r gwerth gwireddadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

(f) **Trafodion Arian Cyfred Tramor**

Mae Asedau a Rhwymedigaethau mewn arian tramor wedi cael eu trosi yn unol â'r gyfradd gyfnewid a oedd mewn grym ar ddyddiad y fantolen. Mae trafodion mewn arian cyfred tramor yn cael eu cofnodi ar y gyfradd sydd mewn grym adeg y trafodiad.

(g) **Cyfrifyddu yng nghyswllt Cronfeydd *(Fund Accounting*)**

Mae cronfeydd cyhoeddus a phreifat digyfyngiad ar gael i‛w defnyddio fel y gwêl y Bwrdd yn dda er mwyn hyrwyddo amcanion cyffredinol y Llyfrgell.

Mae‟r cronfeydd cyhoeddus cyfyngedig yn cynrychioli Grantiau Prynu a Chyfalaf a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru at ddibenion penodol.

Mae'r cronfeydd cyfyngedig preifat yn gronfeydd sy'n rhwym wrth gyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr neu gan ddiben yr apêl.

(h) **Buddsoddiadau**

Datganir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Caiff enillion a cholledion wrth waredu eu credydu neu eu cofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol. Bydd symudiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiad hwnnw yn unol â‛r Datganiad o‛r Arferion a Argymhellir ar gyfer Cyfrifyddu i Elusennau.

(i) **Asedau Diriaethol**

Dangosir Tir ac Adeiladau yn ôl gwerth y defnydd cyfredol ohonynt neu gost eu hadnewyddu ar ôl dibrisiant yn achos adeiladau arbenigol. Ceir prisiad allanol bob pum mlynedd, a defnyddir mynegeion priodol i newid y prisiad hwnnw yn ystod y

blynyddoedd yn y canol neu, os bu newid sylweddol yng ngwerth yr asedau, gellir gwneud cais am brisiad rhwng y cyfnodau hyn. Dangosir cerbydau modur a chyfarpar ar gost eu newid ar ôl eu dibrisio.
Dangosir offer, peiriannau a cherbydau ar gost gyfredol eu hadnewyddu, llai lwfans am ddibrisiant. Bydd samplau'n cael eu hadolygu i sicrhau nad ydynt wedi darfod eu hoes. Diweddarir prisiadau‟n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion priodol. Cofnodir enillion a cholledion sy'n deillio o ailbrisio yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol yn y flwyddyn y byddant yn digwydd.

Darperir dibrisiant yn llawn yn y flwyddyn gaffael, ar gyfraddau a fydd yn lleihau pob ased i amcangyfrif o'i werth gweddilliol yn wastad dros ei oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig, yn unol â chyngor y priswyr, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau rhydd-ddaliad | - hyd at 125 mlynedd |
| Offer, peiriannau a chyfarpar | - hyd at 30 mlynedd |
| Offer cyfrifiadurol | - hyd at 8 mlynedd |
| Cerbydau Modur | - hyd at 5 mlynedd |

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio.

Nid yw Pryniannau i'r Casgliadau yn cael eu dibrisio.

Y trothwy ar gyfer cyfalafu yw £5,000. Ond mae cyfarpar o dan y trothwy hwn hefyd yn cael ei gyfalafu pan fydd yn rhan o rwydwaith neu brosiect.

(j) **Costau Pensiwn**
Mae gan y Llyfrgell ei chynllun pensiwn ei hun sy‟n darparu buddion sy'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywydau gweithio'r gweithwyr. Cyfrifir yr hyn a gofnodir yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ar sail cost gwasanaeth cyfredol fel y'i cyfrifir gan actiwari'r cynllun.

(k) **Trethiant**
Mae Cyllid y Wlad wedi rhoi statws elusennol i'r Llyfrgell. Mae Treth ar Werth nad yw'n adferadwy sy'n deillio o wariant ar weithgareddau anfasnachol yn cael ei chofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol neu ei chyfalafu os yw'n gysylltiedig ag ased sefydlog.

## 2. GRANTIAU'R LLYWODRAETH

| | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| **Digyfyngiad** | | |
| Cymorth Grant* | **10,541** | **10,121** |
| Cymorth Grant – cost y tân | **-** | **470** |
| **Cyfyngedig** | | |
| Grant Prynu | **305** | **305** |
| Cyfalaf | **483** | **542** |
| Cyfalaf - Mewnlenwi'r Iard | **3,300** | **-** |
| Cyfalaf – cost y tân | **-** | **2,472** |
| **Cyfanswm y grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru** | **14,629** | **13,910** |

*Derbyniwyd £600,000 yn ychwanegol o gymorth grant yn 2014/15 a bydd y cymorth grant yn cael ei leihau £300K yn 2015/16

## 3. GRANTIAU ERAILL

| | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| **Cyfyngedig** | | |
| Cyfalaf | **47** | **47** |
| **Digyfyngiad** | | |
| Grantiau'r UE | **280** | **586** |
| ***Eraill*** | | |
| Y Rhyfel Mawr | **275** | **0** |
| Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli | **263** | **255** |
| Casgliad y Werin Cymru | **224** | **224** |
| Pob un Arall | **595** | **404** |
| | **1,684** | **1,516** |

## 4. INCWM ARALL

| | 2014/15 £000 | 2013/14 £000 |
|---|---|---|
| **Digyfyngiad** | | |
| Gwerthiannau | **287** | **215** |
| Llog Banc | **1** | **0** |
| Arlwyo | **211** | **216** |
| Amrywiol | **67** | **70** |
| Maes Parcio | **6** | **5** |
| | **572** | **506** |

## 5. CYFANSWM ADNODDAU A WARIWYD CYN COSTAU TYBIANNOL

| | Costau Staff | Costau Staff - Cefnogaeth | Costau Uniongyrchol eraill | Costau Uniongyrchol eraill - Cefnogaeth | Dibrisiant | **2014/15 Cyfanswm** | 2013/14 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | **£000** | £000 |
| **Gwariant Elusennol** | | | | | | | |
| Incwm gwirfoddol | 64 | 19 | 33 | 4 | 8 | **128** | 136 |
| Masnachu i godi arian | 95 | 28 | 176 | 171 | 41 | **511** | 737 |
| Casglu a Diogelu | 2,839 | 837 | 161 | 158 | 342 | **4,337** | 4,021 |
| Marchnata, Arddangosfeydd ac Addysg | 2,423 | 714 | 957 | 920 | 428 | **5,442** | 5,451 |
| Cadwraeth | 935 | 276 | 111 | 107 | 122 | **1,551** | 1,684 |
| Llywodraethiant | 496 | 146 | 333 | 324 | 111 | **1,410** | 1,203 |
| Eitem eithriadol | | | 1,480 | | 652 | **2,132** | 438 |
| | **6,852** | **2,020** | **3,251** | **1,684** | **1,704** | **15,511** | 13,670 |
| **Cost Cyllid Pensiwn** | 10 | | | | | **10** | (40) |
| **Cyfanswm Adnoddau a Wariwyd cyn Costau Tybiannol** | **6,862** | **2,020** | **3,251** | **1,684** | **1,704** | **15,521** | 13,630 |

Y ffi i archwilio‟r cyfrifon gan yr archwilydd allanol am y flwyddyn 2014/15 yw £27,574 (2013/14 £35,021) ac mae wedi'i chynnwys o dan rheoli a gweinyddu.

Mae gwariant grant WEFO wedi‟i gynnwys o dan Marchnata, Arddangosfeydd ac Addysg a oedd yn £365,627 yn ystod 2014/15 a £280,078 o'r swm yn adferadwy. Mae gwariant refeniw o ran y tân wedi cael ei gynnwys o dan eitemau eithriadol, sef cyfanswm o £38,851.

Gwnaethom ddefnyddio'r Cynllun Diswyddo Gwirfoddol yn ystod y flwyddyn, gydag 9 gweithiwr yn manteisio, ar gost o £601,544 (2013/14 £5,655). Cafodd £752,230 arall ei ymrwymo a'i gronni ar gyfer 18 gweithiwr arall, ond nid oedd wedi'i wario ar ddiwedd y flwyddyn.

## 6. COSTAU STAFF

(a) Cyfanswm Costau Staff

| | **2014/15** | 2013/14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cyflogau | **6,272** | 6,173 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | **460** | 460 |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol | **2,140** | 1,670 |
| | 8,872 | 8,303 |
| Cost Cyllid Pensiwn | 10 | (40) |
| | **8,882** | 8,263 |

Nid oedd dim contractwyr tymor byr nac asiantaethau wedi'u cyflogi.

Roedd cyfartaledd misol nifer y bobl cyfwerth â staff amser llawn a gyflogwyd gan y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| **Niferoedd staff** | **2014/15** | 2013/14 |
|---|---|---|
| Incwm gwirfoddol | **2.40** | **3.13** |
| Masnachu i godi arian | **3.52** | **8.46** |
| Casglu a Diogelu | **105.37** | **122.31** |
| Marchnata, arddangosfeydd ac addysg | **89.94** | **86.43** |
| Cadwraeth | **34.72** | **40.04** |
| Llywodraethiant | **18.41** | **17.59** |
| **Cyfanswm** | **254.36** | **277.95** |

Nid yw'r Bwrdd yn derbyn dim tâl. Cyfanswm y costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch a wariwyd gan y Llyfrgell ar ei haelodau o'i phwyllgorau oedd £6,458 (2013/14 £9,538), a hawliwyd hwn gan 10 aelod.

**(b) Taliadau i'r Tîm Gweithredol (sef yr Uwch Dîm Rheoli yn flaenorol)**

Rhoddwyd y taliadau canlynol i aelodau'r Tîm Gweithredol:

| | 2014/15 | | | | 2013/14 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyflog cyfunol £** | **Cyflog heb ei gyfuno £** | **Cynnydd/(gostyngiad) gwirioneddol mewn Buddion Pensiwn £** | **Un Cyfanswm Tâl £** | **Cyflog cyfunol £** | **Cyflog heb ei gyfuno £** | **Cynnydd (gostyngiad) gwirioneddol mewn Buddion Pensiwn £** | **Un Cyfanswm Tâl £** |
| Yr Athro AG Jones Llyfrgellydd | 90,000 | 0 | 25,530 | 115,530 | 60,000 | 0 | 12,525 | 72,525 |
| Ms A Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Casgliadau | 63,178 | 2,723 | 22,300 | 88,201 | 61,990 | amh | (2,304) | 59,686 |
| Mr. R A Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus | 5,166 | 4,292 | 1,160 | 10,618 | 61,990 | amh | 6,146 | 68,136 |
| Mr. DH Michael Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 63,178 | 2,966 | 12,180 | 78,324 | 61,990 | 1,550 | 12,376 | 75,916 |
| Mrs M Foster Cyfarwyddwr Dros-dro Gwasanaethau Cyhoeddus 14.04.14 i 20.12.14 | 35,360 | 1,403 | 8,520 | 45,283 | amh | amh | amh | amh |

Pennir cyflog cyfunol y Llyfrgellydd gan swyddogion y Llyfrgell, yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â"r dyfarniad cyflog cyfunol uchaf ar gyfer Prif Weithredwyr. Roedd cyflog y Llyfrgellydd 4.18 gwaith yn fwy na chyflog canolrif (£21,527) y Llyfrgell. Mae uwch aelodau staff eraill yn derbyn cyflog gros, y penderfynir arno fel rhan o'r broses o negodi'r cylch cyflog ar gyfer holl aelodau staff eraill y Llyfrgell. Mae contractau cyflogaeth parhaol gan yr holl uwch staff ac maent yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

Rhaid i'r Adroddiad Taliadau gynnwys Un Cyfanswm Tâl gan gynnwys cyflog a buddion pensiwn. Mae maint y buddion pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at yr un cyfanswm tâl yn cael ei gyfrifo mewn ffordd sy'n debyg i'r dull a ddefnyddir i gael gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth, ac yn seiliedig ar wybodaeth a geir gan Actiwari'r Cynllun.

Cyfrifir gwerth buddion pensiwn fel a ganlyn:

(gwir gynnydd yn y pensiwn* x20) + (gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad*) – (cyfraniadau gan yr aelod)

*heb gynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgîl trosglwyddo hawliau pensiwn.

Mae'r lluosydd 20 yn cael ei bennu yn y gofynion datgelu. Mae‟r Llyfrgell wedi defnyddio‟r ffigur hwn i gydymffurfio â'r canllawiau.

Nid yw hwn yn swm sydd wedi‟i dalu i unigolyn gan y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn, cyfrifiad ydyw sy‟n defnyddio gwybodaeth o‟r tabl buddion pensiwn. Mae llawer o bethau‟n gallu dylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau i gyflog unigolyn, a yw‟n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i‟r cynllun pensiwn o‟i gyflog neu beidio a ffactorau prisio eraill sy‟n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.

Mae hawliau pensiwn uwch staff y Llyfrgell sydd â chyfrifoldeb dros redeg adrannau llunio polisïau yn cael eu datgelu fel a ganlyn:-

| | Gwerth Trosglwydd o sydd Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/14 | Cyfanswm Pensiwn Cronedig ar 31/3/15 | Cyfandaliad ar 31/3/15 | Gwerth Trosglwydd o sydd Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/2015 neu ddyddiad gadael y cynllun os yw'n gynharach | Cynnydd mewn pensiwn cronedig net o chwyddiant | Cynnydd yn y cyfandaliad net o chwyddiant | Cynnydd (Gostyngiad) yn y gwerth trosglwydd o net o chwyddiant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Yr Athro AG Jones Llyfrgellydd | 20,200 | 1,870 | 5,610 | 44,060 | 1,110 | 3,330 | 23,620 |
| Ms A Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Casgliadau | 576,550 | 26,650 | 79,950 | 574,830 | 970 | 2,900 | (8,640) |
| Mr RA Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus | 229,670 | 17,780 | 53,340 | 290,160 | 50 | 160 | 60,260 |
| Mr DH Michael Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 234,340 | 15,850 | 47,550 | 293,160 | 530 | 1,580 | 56,010 |
| Mrs M Foster Cyfarwyddwr Dros-dro Gwasanaethau Cyhoeddus | 88,790 | 10,230 | 30,690 | 139,040 | 370 | 1,120 | 49,540 |

Mae Cynllun Pensiwn Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gynllun cyflog terfynol a ariennir. Y cyfandaliadau a phensiynau cronedig yw'r symiau a fyddai'n cael eu talu o Ddyddiad Arferol Ymddeol petai'r aelod yn gadael y gwaith ar y dyddiad perthnasol. Y Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth buddion y cynllun pensiwn wedi‟i gyfalafu a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg, wedi‟i asesu gan actwari, gan gynnwys unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a throsglwyddiadau gwasanaeth i'r cynllun. Mae'r gwerthoedd trosglwyddo wedi cael eu cyfrifo yn unol â nodyn canllaw "GN11" a gyhoeddir gan Sefydliad yr Actiwariaid a Chyfadran yr Actiwariaid. Tybiwyd mai cyfradd chwyddiant pris oedd 1.2%

**(c) Y Cynllun Pensiwn**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu cynllun pensiwn a ariennir, sy'n gynllun pensiwn â‛r buddion wedi‟u diffinio, sy‟n darparu buddion ar sail cyflog terfynol pensiynadwy adeg oedran ymddeol arferol o 60. Mae‟r aelodau‟n talu cyfraniadau arferol ar gyfradd o 6% o‛u cyflog pensiynadwy. Bydd cyfraniadau'r aelodau hynny sy'n gadael y cynllun ac sydd wedi cyfrannu am lai na 2 flynedd yn cael eu had-dalu iddynt. Mae‛r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o‛r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn pan fydd gweithiwr yn ymddeol. Pan fydd aelod yn marw, mae pensiynau'n daladwy i'r partner priod ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bydd aelod yn marw ac yntau'n dal yn y swydd mae'r cynllun yn talu cyfandaliad. Mae ymddeol ar sail feddygol yn bosibl os bydd rhywun yn ddifrifol wael.
Cedwir asedau‛r Cynllun ar wahân i rai‟r Llyfrgell ac fe‟u buddsoddwyd gyda Legal and General, sy‛n rheoli portffolio o fondiau ac ecwitïau, ar sail oddefol yn bennaf. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd diweddaraf ar 31 Mawrth 2013. Cafodd cyfraniad y Llyfrgell ei ostwng i 20.6% o gyflog pensiynadwy, gyda 6% arall o gyflog pensiynadwy gan staff fel cyfraniad sylfaenol drwy drefniant aberthu cyflog. Cyhoeddir datganiad yr actiwari yng Nghyfrifon Blynyddol Cynllun Pensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Cost y pensiwn a dalwyd dros y cyfnod oedd £1.69m (2013/14 £1.93m). Dangosai'r prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2013 fod gwerth asedau‛r Cynllun ar y farchnad yn £46.82m ac nad oedd gwerth actiwaraidd yr asedau hynny‟n fwy na 105% o werth rhwymedigaethau‟r Cynllun. Mae nodyn 21 yn rhoi rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol y cynllun pensiwn er mwyn cydymffurfio â gofynion FRS17.

Yn 2006/07, rhoddodd Llywodraeth Cymru Warant y Goron i‛r Cynllun, sy‟n eithrio‟r Cynllun rhag y Gronfa Diogelu Pensiynau a‟r ardoll gysylltiedig.

(d) **Cofrestr Rhoddion**

Mae gan y Llyfrgell gofrestr rhoddion hefyd. Nid oes dim eitem a nodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei hystyried o fudd perthnasol i'r datganiadau ariannol hyn.

## 7. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

| | Tir Rhydd-ddaliad ac Adeiladau | Peiriannau, Ffitiadau a Chyfarpar | Cerbydau Modur | Technoleg Gwybodaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost a Phrisio | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 62,904 | 2,824 | 13 | 5,638 | 71,379 |
| Ychwanegiadau | 793 | 253 | | 748 | 1,794 |
| Gwarediadau | | (6) | | (56) | (62) |
| Gostyngiad yng ngwerth llyfr asedau | (652) | | | | (652) |
| Ailbrisio | (4,238) | (1) | | (3) | (4,242) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 58,807 | 3,070 | 13 | 6,327 | 68,217 |
| Dibrisiant | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 875 | 2,477 | 9 | 3,729 | 7,090 |
| A godwyd am y flwyddyn | 641 | 113 | 4 | 293 | 1,051 |
| Gwarediadau | | (6) | | (56) | (62) |
| Ailbrisio | (1,431) | (1) | | (2) | (1,434) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 85 | 2,583 | 13 | 3,964 | 6,645 |
| Gwerth Llyfr Net | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **58,722** | **487** | **0** | **2,363** | **61,572** |
| Ar 31 Mawrth 2014 | **62,029** | **347** | **4** | **1,909** | **64,289** |

Cafodd cyflogau 12 aelod o staff a chost cyfarpar gwerth £239,539 i greu system adneuo cyfreithiol electronig eu cyfalafu.

Cafodd adeiladau, tir rhydd-ddaliadol a chyfarpar y Llyfrgell eu prisio'n broffesiynol gan Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig, ar 31 Mawrth 2012 yn unol â Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Prisiwyd adeiladau ar sail eu "gwerth ar y farchnad agored" neu "gost eu hadnewyddu wedi'i dibrisio", a dangosir y tir fel "gwerth y defnydd cyfredol ohono". Mae gwerth yr adeiladau wedi'i fynegeio yn unol â'r fynegai BCIS All-In TPI. Prisiwyd y cyfarpar ar sail ei werth i'r Llyfrgell a'i fynegeio yn ôl y fynegai CPI. Cafodd Trydydd Adeilad y Llyfrgell ei ailbrisio ar gyfer amhariad ar 31 Mawrth 2015 gan Cooke ac Arkwright oherwydd y difrod a achoswyd gan y tân a'r gwaith atgyweirio sy'n cael ei wneud.

Defnyddiwyd pob ased diriaethol i hyrwyddo gweithgareddau elusennol y Llyfrgell.

## 8. CRONFEYDD PREIFAT

| | Digyfyngiad | Cyfyngedig | **Cyfanswm 2014/15** | Cyfanswm 2013/14 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | **£000** | £000 |
| **Adnoddau a Dderbyniwyd** | | | | |
| Arall | 1,196 | 28 | **1,224** | **588** |
| Llog sydd i'w dderbyn | 164 | 24 | **188** | **184** |
| Elw / (colled) o werthu Buddsoddiadau | 158 | 22 | **180** | **87** |
| | 322 | 46 | **368** | **271** |
| **Cyfanswm** | 1,518 | 74 | **1,592** | **859** |
| **Adnoddau a wariwyd** | | | | |
| Incwm gwirfoddol | 26 | 3 | **29** | **22** |
| Casglu a Storio | | | | **2** |
| Marchnata, Arddangosfeydd, Addysg | 2 | 10 | **12** | **95** |
| Codi Arian | | | | |
| **Cyfanswm** | 28 | 13 | **41** | **119** |
| **Adnoddau net a Dderbyniwyd / (a Ddefnyddiwyd)** | 1,490 | 61 | **1,551** | **740** |
| Trosglwyddo i/o Gronfeydd Cyhoeddus | 289 | | **289** | **(494)** |
| | 1,779 | 61 | **1,840** | **246** |
| Elw/(colled) heb ei wireddu wrth ailbrisio buddsoddiadau | 243 | 5 | **248** | **142** |
| Symudiad net yn y Cronfeydd Preifat yn ystod y flwyddyn | 2,022 | 66 | **2,088** | **388** |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill | **5,487** | **788** | **6,275** | **5,887** |
| Cariwyd Ymlaen ar 31 Mawrth | **7,509** | **854** | **8,363** | **6,275** |

Sefydlwyd ail bortffolio Investec yn ystod y flwyddyn yn sgil trosglwyddo £1.25m o gronfa breifat ar ôl derbyn cymynrodd mawr yn ystod y flwyddyn.

## 9. BUDDSODDIADAU

| | **2014/15** | 2013/14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill | **5,880** | 5,317 |
| Caffaeliadau yn ôl eu cost | **2,495** | 958 |
| Llai: Enillion wrth Werthu a Buddsoddiadau'n Aeddfedu | **(1,214)** | (624) |
| Elw wrth Werthu | **180** | 87 |
| Elw/(colled) heb ei wireddu wrth ailbrisio | **248** | 142 |
| **Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth** | **7,589** | 5,880 |
| Arian yn cael ei ddal ar gyfer buddsoddi | **772** | 395 |
| | **8,361** | 6,275 |

Cost hanesyddol y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2015 oedd £6.315m (2013/14 £4.857m).

| Giltiau, bondiau, dyledebion a blaengyfrannau (preference) £ | Buddsoddiadau drwy unedau, ecwitïau, eiddo ac asedau amgen £ | Buddsoddiadau drwy unedau yn y portffolio bondiau £ | Ecwitïau'r DU a fuddsoddwyd yn uniongyrchol ar farchnad stoc y DU £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| 1,170,252 | | 1,021,101 | | 2,191,353 |
| | | 291,535 | | 291,535 |
| | | | 3,071,233 | 3,071,233 |
| | 301,902 | | | 301,902 |
| | 544,704 | | | 544,704 |
| | 111,150 | | | 111,150 |
| | 114,048 | | | 114,048 |
| | 169,838 | 269,235 | | 439,073 |
| | 175,596 | | | 175,596 |
| | 160,549 | | | 160,549 |
| | 179,400 | | | 179,400 |
| | 8,922 | | | 8,922 |
| 1,170,252 | 1,766,109 | 1,581,871 | 3,071,233 | 7,589,465 |

Wrth benderfynu ar yr enillion y mae'r Llyfrgell am eu cael o'i phortffolio, a'r cydbwysedd rhwng incwm a thwf cyfalaf, mae'r Llyfrgell yn fodlon derbyn y bydd risgiau'n gysylltiedig â buddsoddi cronfeydd a fydd yn fwy na'r risg sy'n gysylltiedig â dim ond rhoi arian i gadw. Mae‟r Llyfrgell yn fodlon derbyn y rhain gyhyd â‟u bod o fewn lefelau derbyniol.

"Canolig" yw‟r gair gorau i ddisgrifio archwaeth risg y Llyfrgell. Er mwyn sicrhau enillion gwell, mae'r Llyfrgell yn fodlon derbyn bod yn rhaid cymryd risgiau. Ond bydd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried sefyllfa'r Llyfrgell fel elusen a ariennir yn bennaf gan grant oddi wrth y Llywodraeth ac o'r herwydd y safonau stiwardiaeth sydd ynghlwm wrth hynny. Felly bydd y risgiau wrth fuddsoddi'n cael eu lleddfu gan y canlynol:

- **Dyrannu Asedau** - strategaeth dyrannu asedau nad yw'n peri bod yr arian yn rhy agored i amrywiadau mewn un sector penodol o'r sbectrwm buddsoddi - h.y. bydd cydbwysedd yn cael ei daro rhwng niferoedd y bondiau, ecwitïau, arian a buddsoddiadau eraill gan gynnwys eiddo, a buddsoddiadau yn y DU a heb fod yn y DU.
- **Ansawdd buddsoddiadau** - dim ond buddsoddiadau o ansawdd uchel y bydd y Llyfrgell yn eu hystyried megis giltiau a bondiau gradd buddsoddi neu ecwitïau a buddsoddiadau ar y cyd yn y FTSE 350.

## 10. Asedau Treftadaeth

Cyfalafir pryniannau ar gyfer yr Asedau Treftadaeth ar sail cost hanesyddol.

**Prynwyd yn ystod y flwyddyn:**

| | **Llyfrau £000** | **Tanysgrifiadau £000** | **Lluniau Llawysgrifau a Mapiau £000** | **Eraill £000** | **Casgliadau Digidol £000** | **NSSAW £000** | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 01/04/14 | **1,623** | **2,427** | **9,854** | **380** | **4,176** | **284** | **18,744** |
| Ychwanegiadau | 81 | 63 | 137 | | 194 | 6 | **481** |
| Rhoddion | 22 | | 188 | | | | **210** |
| **Ar 31/03/2015** | **1,726** | **2,490** | **10,179** | **380** | **4,370** | **290** | **19,435** |

**Crynodeb ariannol pedair blynedd o'r ychwanegiadau:**

| | **2014/15 £000** | 2013/14 £000 | 2012/13 £000 | 2011/12 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Llyfrau** | **81** | 38 | 34 | 81 |
| **Tanysgrifiadau** | **63** | 106 | 98 | 102 |
| **Lluniau, Llawysgrifau a Mapiau** | **137** | 192 | 673 | 347 |
| **Eraill** | **0** | 0 | 0 | 0 |
| **Casgliad Digidol** | **194** | 300 | 547 | 1,011 |
| **NSSAW** | **6** | 8 | 7 | 7 |
| **Cyfanswm yr Ychwanegiadau** | **481** | 644 | 1,359 | 1,548 |

Mae gan y Llyfrgell bolisi y cytunwyd arno ar gyfer prynu, diogelu, a rheoli asedau treftadaeth. Mae copi o'r polisi ar gael gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Casgliadau. Nid yw'r Llyfrgell yn rhoi benthyg eitemau i ddefnyddwyr, ond mae modd cael gweld y casgliadau yn ystafelloedd darllen a mannau arddangos yr adeilad, a hefyd ar-lein.

Cyfalafwyd cyflogau 10 aelod o staff, sef cyfanswm o £194,032, a oedd yn gyfrifol am ddigido archif ITV.

Yn 14/15, gwnaeth y Llyfrgell ddigido rhestr o Fapiau, Ewyllysiau, Llawysgrifau a rhywfaint o ddeunydd graffigol. Mae‟r holl gostau wedi cael eu cyfalafu o dan y categori casgliadau digidol yn yr asedau treftadaeth.

Ers 1911, mae gan y Llyfrgell hawl i dderbyn copi o bob llyfr, cylchgrawn, papur newydd a deunydd printiedig arall a gyhoeddir yn y DU ac Iwerddon. Deunydd o ddiddordeb Cymreig a Cheltaidd y mae'n ei gasglu'n bennaf. Mae ei chasgliadau ar hyn o bryd yn cynnwys:

**Deunydd Print:** sy'n amrywio o *Yny lhyvyr hwnn,* y llyfr cyntaf yn yr iaith Gymraeg (a argraffwyd yn 1546) i raglenni digwyddiadau lleol megis cyngherddau a sioeau. Mae gan y Llyfrgell dros 6 miliwn o gyfrolau print.

**Llawysgrifau ac archifau:** sy'n cynnwys eitemau amhrisiadwy o‟r Canol Oesoedd fel Llyfr Llandaf, llawysgrif Chaucer Hengwrt, Llyfr Du Caerfyrddin yn ogystal â 'Cyfreithiau Hywel Dda' a brynwyd yn ddiweddar. Ceir yno hefyd ffynonellau dogfennol o‟r Canol Oesoedd hyd heddiw, megis cofnodion sy‟n gysylltiedig ag eglwysi a chapeli yng Nghymru gan gynnwys Cofnodion Plwyfi ac ewyllysiau. Mae hefyd yn derbyn traethodau ymchwil gan brifysgolion Cymru, archifau cyrff cyhoeddus a phapurau personol Cymry enwog o bob cefndir. Y mae dros 30,000 cyfrol o lawysgrifau, 4 miliwn o ddogfennau archif a 50 o drysorau celf yn y Llyfrgell.

**Mapiau:** Hynafiaethol a modern ac atlasau, mapiau Arolwg Ordnans, siartiau moroedd, mapiau ffermydd, ystadau a mapiau degwm, cynlluniau rheilffordd a gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan y Llyfrgell dros 1.5 miliwn o fapiau.

**Lluniau:** yn portreadu pobl a llefydd yng Nghymru gan gynnwys paentiadau, printiau, ysgythriadau a lluniau eraill. Mae‟r casgliadau hyn yn cynnwys dros 60,000 o luniau a 4,000 o weithiau celf wedi'u fframio.

**Ffotograffau:** o‟r ffotograff cynharaf a dynnwyd yng Nghymru, daguerroteip o Gastell Margam, a dynnwyd yn 1841, i weithiau Mary Dillwyn, John Thomas, D. C. Harries a Geoff Charles. Mae gan y Llyfrgell oddeutu 950,000 o ffotograffau yn ei chasgliad.

Adnoddau electronig a delweddau digidol: Mae'r casgliadau newydd hyn sydd wedi'u creu'n bennaf gan y Llyfrgell yn cynnwys dros 5 miliwn o ddelweddau.

Mae gan **Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru** dros 250,000 awr o recordiadau sain, 300,000 awr o ddelweddau symudol, 7 miliwn troedfedd o ffilm, 200,000 eitem o Archif ffilm a theledu ITV a 15km o archif unigryw. Yn eu mysg y mae darllediadau teledu a radio, recordiadau ffilm amatur a sain, recordiau, casetiau a CDs, ffilmiau a fideos masnachol.

## 11. DYLEDWYR - yn ddyledus o fewn blwyddyn

| | **31 Mawrth 2015**<br>**£000** | 31 Mawrth 2014<br>£000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr Masnach | **416** | **146** |
| Rhagdaliadau ac Incwm Cronedig | **1,154*** | **477** |
| Dyledwyr Eraill | **242** | **96** |
| Cronfeydd Preifat | **32** | **34** |
| | **1,844** | **753** |

*mae'n cynnwys rhagdaliad o £700K i'r Cynllun Pensiwn

## 12. CREDYDWYR

### Yn dod yn ddyledus o fewn blwyddyn

| | **31 Mawrth 2015**<br>**£000** | 31 Mawrth 2014<br>£000 |
|---|---|---|
| Credydwyr Masnach | **201** | **138** |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **880** | **136** |
| Buddsoddi i Arbed* | **500** | **-** |
| Incwm gohiriedig Cronfeydd Preifat | **131** | **141** |
| | **1,712** | **415** |

*Derbyniwyd £500,000 o arian Buddsoddi i Arbed i helpu i ariannu treuliau terfynu swyddi a dalwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd y swm yn cael ei ad-dalu drwy lai o gymorth grant yn 2015/16, ac felly caiff ei drin fel credydwr.

## 13. SYMUDIADAU YN Y DATGANIAD CRONFEYDD

| | **Ar 1 Ebrill 2014** | Adnoddau a Dderbyniwyd | Adnoddau a Wariwyd | Symudiadau eraill Yn ystod y flwyddyn | **Ar 31 Mawrth 2015** |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| **CRONFEYDD CYHOEDDUS** | | | | | |
| Cyfyngedig - Cyfalaf | **72,471** | 3,830 | 1,704 | (3,097) | **71,500** |
| - Prynu | **7,143** | 305 | | | **7,448** |
| Cyfanswm Cyfyngedig | **79,614** | 4,135 | 1,704 | (3,097) | **78,948** |
| Digyfyngiad | **(7,572)** | 13,250 | 13,776 | 3,090 | **(5,008)** |
| Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus | **72,042** | 17,385 | 15,480 | (7) | **73,940** |
| **CRONFEYDD PREIFAT** | | | | | |
| Cyfyngedig | **7,399** | 74 | 13 | 215 | **7,675** |
| Digyfyngiad | **5,487** | 1,518 | 28 | 532 | **7,509** |
| Cyfanswm y Cronfeydd Preifat | **12,886** | 1,592 | 41 | 747 | **15,184** |
| **CYFANSWM** | **84,928** | 18,977 | 15,521 | 740 | **89,124** |

## 14. YMRWYMIADAU CYFALAF

Mae gan y Llyfrgell Raglen Gyfalaf Dreigl o bedair blynedd. Ar ddyddiad y fantolen, mae'r ymrwymiadau sy'n weddill fel a ganlyn:

| | **31 Mawrth 2015 £000** | 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|---|
| Dan gontract – Cam Terfynol - | **-** | 240 |
| Swyddfa Trydydd Adeilad y Llyfrgell - To | | |
| Dan gontract – Cam Terfynol - | **338** | - |
| Swyddfa Trydydd Adeilad y Llyfrgell - | | |
| Swyddfeydd | **2,253** | - |
| Dan gontract - Comisiwn Brenhinol | **85** | - |
| Dan gontract - Boeleri | | |
| | **2,676** | 240 |

Rhagwelir y bydd yr holl ymrwymiadau a bennwyd ar 31 Mawrth 2015 yn cael eu cyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16.

## 15. CYSONI NEWIDIADAU YN YR ADNODDAU Â'R LLIF NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| | **2014/15** | 2013/14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Adnoddau net a dderbyniwyd am y flwyddyn ariannol | **3,928** | 3,511 |
| Dibrisiant | **1,052** | 962 |
| (Cynnydd)/Lleihad yn y stoc | **(6)** | 1 |
| (Cynnydd) mewn dyledwyr | **(1,091)** | 120 |
| Lleihad yn y ddarpariaeth | | |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn credydwyr | **797** | (470) |
| Costau Cyllid Pensiwn | **460** | (150) |
| Llif arian net o weithgareddau gweithredol | **5,140** | 3,974 |

## 16. GWARIANT CYFALAF A BUDDSODDIAD ARIANNOL

| | **2014/15** | 2013/14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | **(1,793)** | (1,082) |
| Taliadau i brynu casgliadau | **(481)** | (644) |
| Incwm wrth waredu ased sefydlog | **0** | 0 |
| Taliadau i gaffael buddsoddiadau | **(2,495)** | (958) |
| Enillion wrth werthu buddsoddiadau | **1,214** | 625 |
| | **(3,555)** | (2,059) |

## 17. CYSONI LLIF ARIAN NET Â SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD NET

| | 2014/15 | 2013/14 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cronfeydd Net ar 1 Ebrill | 3,947 | 2,032 |
| Mewnlif arian net | 1,206 | 2,090 |
| Cynnydd (gostyngiad) yn yr arian a ddelir ar gyfer buddsoddi | 379 | (175) |
| Cronfeydd Net ar 31 Mawrth | **5,532** | **3,947** |

## 18. TRAFODION PARTION CYSYLLTIEDIG

Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn cafodd y Llyfrgell arian gan y Llywodraeth ar ffurf Cymorth Grant, a Grantiau Prynu a Chyfalaf fel y'u datgelir yn nodyn 2.

Mae Culturenet yn is-gwmni segur i'r Llyfrgell. Yn ystod 2014/15 ni roddodd y Llyfrgell unrhyw daliadau i Culturenet (2014: dim) ac ni dderbyniodd unrhyw incwm oddi wrth y cwmni.

Mae'r uwch staff canlynol yn y Llyfrgell yn gyfarwyddwyr y cwmni:

| | |
|---|---|
| Mr David Michael | Cyfarwyddwr |
| Avril Jones | Cyfarwyddwr |

Nid yw̔r staff hyn yn derbyn unrhyw daliadau cydnabyddiaeth gan Culturenet. Mae Culturenet wedi bod yn segur ers 1 Ebrill 2013.

Mae Mr Huw Williams, aelod o̔r Bwrdd, yn bartner yn Geldards LLP, sef cynghorwyr cyfreithiol enwebedig y Llyfrgell. Rhoddwyd taliadau gwerth £89,424 (2014: £171,450) i Geldards LLP yn ystod 2014/15 am wasanaethau a roddwyd.

Mae Mr Robert Gray, aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio'r Llyfrgell, yn bennaeth cwmni Francis Gray, sydd wedi cael eu penodi i lunio datganiadau ariannol segur Culturenet a helpu'r Llyfrgell gyda'i chyfrifon diwedd blwyddyn. Roedd cyfanswm y taliadau yn ystod 2014/15 yn £13,338 (2014: £12,545). £7,564).

Ar 31 Mawrth 2015 roedd gan y Llyfrgell ddyledwyr a chredydwyr cyfunol gyda chyrff eraill sy̔n derbyn cyllid gan y Llywodraeth fel a ganlyn:

| | **£000 Dyledwyr** | **£000 Credydwyr** |
|---|---|---|
| Cyrff Llywodraeth Ganolog | 274 | - |
| Cyrff Llywodraeth Leol | 3 | 6 |
| Cyrff Anllywodraethol | 1,567 | 1,206 |
| Cyfanswm | 1,844 | 1,212 |

## 19. PRYDLESI

Ni wnaeth y Llyfrgell unrhyw daliadau prydles i brydlesu peiriannau gwerthu bwyd a diod yn ystod 2014/15 (2013/1 £1,739.29). Cofnodir costau prydles yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol.

## 20. DEILLIADAU – FRS13

Mae"r fantolen yn dangos y Banc yng nghyswllt asedau cyfredol a rhwymedigaethau cyfredol. Mae sefyllfa"r llyfr arian yn dangos bod un cyfrif mewn dyled o £0.4m, tra mae gan y cyfrifon eraill £5.124m mewn llaw. Hon yw"r sefyllfa llyfr arian sy"n ystyried nifer o drafodion nad oedd wedi"u prosesu gan y Banc eto, megis sieciau ac adnau heb eu clirio. Nid oedd gan y Llyfrgell gyfrif banc yn y coch ar ddiwedd y flwyddyn.

Nid oes gan y Llyfrgell fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau adrannol ar gyfer ei gofynion arian ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Datgelir yr unig adnau o bwys yn nodyn 9, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau o bwys mewn sterling, ac felly nid yw'n agored i risg yn ymwneud â'r gyfradd llog neu ag arian cyfred. Yn 2014/15, daeth £15.129m neu 87% o incwm cyfunol y Llyfrgell o Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru (2013/14 £13.91m neu 87%). Daw"r gweddill, £2.257m neu 13% (2013/14 £2.041m neu 13%) o incwm o gronfeydd preifat y Llyfrgell, o weithgareddau masnachu ac o grantiau gan gyrff eraill, fel y datgelir yn Nodyn 3 y cyfrifon hyn.

## 21. COSTAU PENSIWN

Mae gan y Llyfrgell gynllun pensiwn â buddion wedi"u diffinio gyda buddion yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Bydd yr aelodau'n talu cyfraniadau sylfaenol ar gyfradd o 6% o gyflog pensiynadwy.

Cafwyd y prisiad actiwaraidd llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2013 ac aseswyd bod y Cynllun wedi cyrraedd pwynt lle mae wedi"i ariannu"n llawn. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015, bu'r Llyfrgell yn cyfrannu at y Cynllun ar gyfradd o 20.6% o gyflogau pensiynadwy a bydd y gyfradd hon yn cael ei defnyddio o hyd yn 2015/16. Bydd y gyfradd gyfrannu ar ôl y dyddiad hwn yn dibynnu ar ganlyniad prisiad yr actiwari ar 31 Mawrth 2016. Disgwylir y bydd cyfraniadau"r cyflogwr ar gyfer 2015/16 yn £1.6 miliwn.

**Tybiaethau Ariannol**

Mae'r tybiaethau ariannol a wnaed er mwyn cyfrifo gofynion datgelu FRS17 fel a ganlyn:

| | **31 Mawrth 2015<br>% y flwyddyn** | 31 Mawrth 2014<br>% y flwyddyn |
|---|---|---|
| Chwyddiant Prisiau | **3.2** | **3.5** |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | **3.7** | **4.0** |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu* | **2.2** | **2.5** |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfradd y cynnydd ar gyfer pensiynwyr sydd wedi gohirio* | **2.2** | **2.5** |
| Cyfradd ddisgownt** | **3.55** | **4.35** |

**yn fwy nag unrhyw elfen GMP (Isafswm Pensiwn Gwarantedig)
**wedi'i ragnodi gan Drysorlys EM

Mae‟r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer datgeliadau FRS 17 yn wahanol i'r un a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari ar gyfer yr asesiad ariannol mwyaf diweddar o‟r Cynllun ar 31 Mawrth 2013. Bryd hynny, aseswyd bod y Cynllun wedi‟i ariannu'n llawn. Bydd y gofyniad i ddefnyddio cyfradd ddisgownt y Trysorlys ar gyfer y datgeliad FRS17 yn golygu y bydd sefyllfa ariannol y Cynllun yn cael ei hasesu‟n wahanol dan y mesur hwn o‟i gymharu â'r dull a ddefnyddir ym mhrisiad actiwaraidd ffurfiol y Cynllun. Ar 31 Mawrth 2015, aseswyd bod 101% o‟r Cynllun wedi‟i ariannu dan dybiaethau'r Actiwari ei hun, o'i gymharu â phrisiad FRS17 a gynhyrchodd ddiffyg o £5.65m yn y pensiwn.

**Gwerth Asedau ar y Farchnad a'r Gyfradd Enillion Ddisgwyliedig ar Asedau**

| | **31 Mawrth 2015** | 31 Mawrth 2014 | |
|---|---|---|---|
| | **Gwerth Teg** | Gwerth Teg | Cyfradd Enillion ddisgwyliedig |
| | **£m** | £m | % y flwyddyn |
| Ecwitïau | **20.25** | 17.34 | 7.1 |
| Bondiau | **31.13** | 25.51 | 3.4 |
| Eiddo | **5.68** | 4.61 | 6.5 |
| Arall | **(0.16)** | 0.22 | 3.0 |
| **Cyfanswm gwerth yr asedau** | **56.90** | 47.68 | 5.0 |

**Elfennau Cost Buddion wedi'u Diffinio am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2015**

| | **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 £m** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 £m |
|---|---|---|
| a. Cost gwasanaeth cyfredol | **2.14** | 1.67 |
| b. Cost gwasanaeth blaenorol | **0.00** | 0.00 |
| c. Gwarged heb ei gydnabod yn flaenorol a dynnwyd o gostau gwasanaeth blaenorol | **0.00** | 0.00 |
| **d. Cyfanswm a gofnodir dan yr Adnoddau a Wariwyd** | **2.14** | 1.67 |

**Dadansoddiad o Symiau Eraill a gofnodir dan y Datganiad Gweithgareddau Ariannol**

| | **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 £m** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 £m |
|---|---|---|
| e. (Enillion)/colledion ar | **0.00** | 0.00 |

| | | |
|---|---|---|
| setliadau | | |
| f. Gwarged heb ei gydnabod yn flaenorol a ddidynnwyd o'r golled ar y setliad | **0.00** | 0.00 |
| g. (Enillion)/colledion drwy gwtogi | **0.00** | 0.00 |
| h. Gwarged heb ei gydnabod yn flaenorol a dynnwyd o gostau gwasanaeth blaenorol | **0.00** | 0.00 |
| **i. Colled (enillion) net a gofnodwyd o dan y Datganiad Gweithgareddau Ariannol** | **0.00** | 0.00 |

**Dadansoddiad o'r Swm a Gofnodwyd/Gredydwyd i Incymau Cyllid Eraill**

| | **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 £m** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 £m |
|---|---|---|
| j. Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **2.39** | 1.98 |
| k. Elw disgwyliedig ar asedau yn y cynllun pensiwn | **(2.38)** | (2.02) |
| l. Taliad (credyd) net i incwm cyllid arall | **0.01** | (0.04) |
| Y Cyfanswm a gofnodwyd dan y Datganiad Gweithgareddau Ariannol : d + i + l | **2.15** | 1.63 |

**Dadansoddiad o'r Symiau a Gydnabyddir yn y Cronfeydd wrth gefn**

| | **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 £m** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 £m |
|---|---|---|
| m. (Enillion)/colledion ar asedau | **(7.14)** | 1.31 |
| n. (Enillion) colledion profiad ar rwymedigaethau | **0.00** | (0.65) |
| o. (Enillion) colledion ar newid mewn tybiaethau (ariannol a demograffig) | **4.05** | 5.51 |
| **p. Cyfanswm (enillion) colledion a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn** | **(3.09)** | 6.17 |
| **q. (enillion) colledion actiwaraidd cronnus a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn** | **9.49** | 12.58 |

**Hanes o enillion a cholledion profiad**

| | **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 £m** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 £m |
|---|---|---|
| a. (Enillion) colledion ar asedau'r cynllun | **(7.14)** | 1.31 |
| Swm (£m) | **12.5** | 2.7 |
| % asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | | |
| b. (enillion) colledion profiad ar rwymedigaethau'r cynllun | | |
| Swm (£m) | **0.00** | (0.65) |
| % asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | **0.0** | 1.2 |
| c. Cyfanswm (enillion) colledion actiwaraidd a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn | **(3.09)** | 6.17 |
| Swm (£m) | **4.9** | 11.0 |
| % asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | | |

**Cysoni â'r Fantolen**

| | **31 Mawrth 2015 £m** | 31 Mawrth 2014 £m |
|---|---|---|
| a. Gwerth asedau'r cynllun ar y farchnad | **56.90** | 47.68 |
| b. Gwerth actiwaraidd rhwymedigaethau'r cynllun | **62.55** | 55.96 |
| c. Gwarged (diffyg) yn y cynllun | **(5.65)** | (8.28) |
| d. Gwarged anadferadwy | **0.00** | 0.00 |
| e. Asedau (rhwymedigaeth) pensiwn a gydnabyddir yn y fantolen | **(5.65)** | (8.28) |

**Cysoni Rhwymedigaethau**

| | **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 £m** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 £m |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn | **55.96** | **49.08** |
| Cost llog | **2.39** | **1.98** |
| Cost gwasanaeth cyfredol | **2.14** | **1.67** |
| Cyfraniadau'r aelodau | **0.00** | **0.14** |
| Taliadau buddion | **(1.99)** | **(1.77)** |
| Cost gwasanaeth blaenorol | **0.00** | **0.00** |
| Cost Setliad | **0.00** | **0.00** |
| Cost cwtogiad | **0.00** | **0.00** |
| (Enillion) colledion ar newid | | |

| | | |
|---|---|---|
| tybiaethau | **4.05** | **5.51** |
| (enillion) colledion profiad | **0.00** | **(0.65)** |
| **Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn** | **62.55** | **55.96** |

**Cysoni Asedau**

| | **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015** | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| | **£m** | £m |
| Asedau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn | **47.68** | **46.82** |
| Taliadau buddion | **(1.99)** | **(1.77)** |
| Cyfraniadau'r Llyfrgell | **1.69** | **1.78** |
| Cyfraniadau"r aelodau | **0.00** | **0.14** |
| Cost Setliad | **0.00** | **0.00** |
| Enillion disgwyliedig ar Asedau | **2.38** | **2.02** |
| (Enillion) colledion ar asedau | **7.14** | **(1.31)** |
| **Asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn** | **56.90** | **47.68** |

## 22. EITEMAU EITHRIADOL

### A. Y TÂN AR 26 EBRILL 2013

Mae"r costau yn sgîl y tân yn y Llyfrgell wedi cael effaith sylweddol ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn. Mae"r Llyfrgell wedi cyfarwyddo ei chynghorwyr cyfreithiol i wneud hawliad am gostau yn erbyn y contractwr a oedd yn gyfrifol am achosi'r tân. Ond ystyrir y bydd canlyniad yr ymgyfreitha hwn yn rhy ansicr i gydnabod unrhyw gostau a gaiff eu hadfer yn y datganiadau ariannol hyn.

Wynebwyd gwariant o £652,000 yn dilyn atgyweirio to Swyddfeydd Trydydd Adeilad y Llyfrgell. Codwyd y gwariant hwn ar Adnoddau a Wariwyd yn y Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig fel eitem eithriadol yn ystod y flwyddyn. Cafodd y to ei ailadeiladu gan fwyaf i gyd-fynd â'r adeilad gwreiddiol ac felly, gan na chafodd strwythur yr adeilad ei wella, mae"r gwariant yn cael ei gydnabod fel eitem eithriadol ac yn cael ei ddileu yn ystod y flwyddyn. Darparodd Llywodraeth Cymru £2,472,000 yn ychwanegol o arian cyfalaf fel y datgelir yn nodyn 2, yr ad-dalwyd £442,000 ohono yn 2014/15 drwy lai o gymorth grant.

Yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol, mae £39k o wariant ar y to fel eitem eithriadol yn y Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig yn ymwneud â chostau cyfreithiol ac eraill a wynebwyd yn ystod y flwyddyn yng nghyswllt y tân ar y to.

### B. TÂL YMADAEL

Cynigiodd y Llyfrgell gynllun ymadael gwirfoddol i'w staff yn ystod y flwyddyn, a gadawodd 9 aelod staff cyn 31 Mawrth 2015 ar gost o £601,544. Derbyniodd 18 aelod staff arall y telerau a oedd yn cael eu cynnig a byddant yn ymadael â'r Llyfrgell yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16 ar gost o £752,230.

## C. ATEBOLRWYDD AR ÔL TRIBIWNLYS

Ar ôl i dribiwnlys cyflogaeth gael ei gynnal, dyfarnwyd bod y Llyfrgell wedi diswyddo dau aelod o'r staff yn annheg. Talwyd iawndal o £71,890 i un ohonynt yn ystod 2014/15, a thalwyd tâl diswyddo o £53,498 a thaliad iawndal o £28,460 i'r llall gan gynnwys setliad o £15,614 ym mis Ebrill 2015 a gafodd eu cronni yn natganiadau ariannol 2014/15.